


Rhif ymchwil cymdeithasol: 52/2026

Dyddiad cyhoeddi: 23/03/2026

Gwerthusiad o'r System ADY: Astudiaethau Ardal Lleol – Adroddiad Ton 1



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron

ISBN Digidol 978-1-83745-355-9

Gwerthusiad o'r System ADY: Astudiaethau Ardal Lleol – Adroddiad Ton 1

Awduron: Hefin Thomas, Brett Duggan, Sioned Lewis, Jennifer Lane, Sam McAlister-Wilson, Anest Williams – Arad

Adroddiad Ymchwil Llawn: Gwerthusiad o'r System ADY: Astudiaethau Ardal Lleol – Adroddiad Ton 1. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 52/2026

Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-or-system-anghenion-dysgu-ychwanegol-astudiaethau-ardal-leol-adroddiad-ton-1>

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Cangen Ymchwil Ysgolion

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth Gwasanaethau

Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: SchoolsResearch@gov.wales

Cynnwys

Rhestr o'r tablau.....	6
Geirfa 7	
1. Cyflwyniad.....	10
Cefndir polisi.....	10
Gwerthusiad o'r System ADY	10
Y camau nesaf	10
Am yr adroddiad hwn	10
2. Methodoleg	12
Cynllun yr offeryn ymchwil.....	12
Sampl	12
Gwaith maes	12
Recriwtio.....	15
Dadansoddi	16
Cyfyngiadau methodolegol.....	17
3. Canfyddiadau	18
Cynnydd cyffredinol wrth weithredu'r system ADY	18
Cydweithio	18
Ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.....	19
Systemau, templedi a dysgu proffesiynol.....	19
Llwyth gwaith a chapasiti	20
Amserlenni.....	20
Diffiniadau o ADY a DDdY	20
Cynlluniau Datblygu Unigol (CDUau) a phrosesau cynllunio.....	20
Ymwreiddio ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn fel rhan o brosesau cynllunio	21
CDUau	22
Adolygiadau	23
Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY)	24
Cysondeb wrth ddehongli DDdY	24
Digonolrwydd DDdY i ddiwallu anghenion	25
Gwybodaeth a sgiliau er mwyn cyflwyno DDdY	26
Rhwystrau wrth gyflwyno DDdY.....	26
DDdY mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar.....	26

Rolau statudol	27
CADY.....	27
SAADY y Blynyddoedd Cynnar.....	28
SACDA	28
Cydweithio a rhannu gwybodaeth	28
Cydweithio gydag awdurdodau lleol	29
Cydweithio gydag ysgolion/lleoliadau Blynyddoedd Cynnar – addysg.....	29
Cydweithio gyda SABau	31
Cydweithio gyda gweithwyr iechyd proffesiynol	31
Systemau ar-lein: systemau rhannu data	32
Pontio	32
Anghytundebau ac apeliadau.....	34
Safbwyntiau ynghylch a yw'r system ADY yn llai gwrthwynebol	34
Tueddiadau a rhesymau dros anghytundebau.....	35
System ddwyieithog	36
Darpariaeth a chapasiti dwyieithog	36
Ffactorau system ehangach	37
Costau sydd ynghlwm â gweithredu'r system ADY.....	38
Tryloywder prosesau ariannu.....	38
Datblygu'r gweithlu ac anghenion dysgu proffesiynol	39
Newidiadau o ran nifer y dysgwyr sydd ag ADY	40
Alinio diwygiadau ADY gyda pholisïau ehangach	40
4. Canfyddiadau o waith maes gyda dysgwyr a rhieni	42
Safbwyntiau dysgwyr.....	42
Profiadau o'r lleoliad addysg.....	42
Cymorth er mwyn dysgu	43
Cyfarfodydd ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a CDU	44
Lles	45
Gwelliannau a awgrymwyd	45
Nodau ar gyfer y dyfodol.....	46
Safbwyntiau rhieni	46
Trosolwg	46
Profiadau Rhieni o'r Broses CDU	47
Safbwyntiau am Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY)	48

Profiadau o Gyfathrebu a Chymorth	48
Pontio Rhwng Lleoliadau Addysg	50
Dealltwriaeth Rhieni o'r System ADY	51
Herio Penderfyniadau ac Apeliadau	51
Safbwyntiau Rhieni am yr Hyn a oedd yn Gweithio'n Dda a'r Hyn nad oedd yn Gweithio Gystal.....	52
5. Crynodeb o'r prif ganfyddiadau	54
Cynnydd cyffredinol wrth weithredu'r system ADY	54
Cynlluniau Datblygu Unigol (CDUau) a phrosesau cynllunio.....	54
Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY)	55
Rolau statudol	56
Cydweithio a rhannu gwybodaeth	56
Anghytundebau ac apeliadau.....	57
System ddwyieithog	57
Ffactorau system ehangach	58
Safbwyntiau dysgwyr.....	58
Safbwyntiau rhieni.....	59
Atodiad A: Proffil y sampl.....	60
Atodiad B: Offerynnau ymchwil.....	66

Rhestr o'r tablau

Tabl 1. Nifer y cyfranogwyr o bob sector a math o leoliad yn y gwaith ymchwil.....	14
Tabl 2. Nifer y cyfranogwyr yn y gwaith ymchwil o awdurdodau lleol yn ôl math o rôl/maes gwaith.....	14
Tabl 3. Nifer y cyfranogwyr yn y gwaith ymchwil o BILlau yn ôl math o rôl/maes gwaith.....	15
Tabl 4. Nifer y cyfranogwyr yn y gwaith ymchwil o ysgolion sydd â nodweddion penodol sy'n ymwneud ag ADY ac eFSM	65

Geirfa

AAA

Anghenion Addysgol Arbennig

AAD

Anawsterau a/neu anabledau dysgu

AB

Addysg Bellach

ADY

Anghenion Dysgu Ychwanegol

AHY

Addysg Heblaw yn yr Ysgol

ALI

Awdurdod lleol

BILI

Bwrdd Iechyd Lleol

CA

Cynorthwydd Addysgu

CADY(au)

Cydlynedd(cydlynwyr) Anghenion Dysgu Ychwanegol

CDU

Cynllun Datblygu Unigol

CiG

Cwricwlwm i Gymru

CYBLD

Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion

DDdY

Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol

eFSM

Yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim

Gweithiwr(gweithwyr) Cymorth Dysgu / GCD(au)

Cynorthwywyr Cymorth Dysgu (CCDau) a Chynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch (CALUau)

Lleoliadau blynyddoedd cynnar

Lleoliadau blynyddoedd cynnar nas cynhelir

Rhieni

Defnyddir y gair hwn yn yr adroddiad i ddisgrifio ymatebwyr sydd â chyfrifoldeb rhiant (h.y. rhieni a gofalwyr)

SAADY y Blynyddoedd Cynnar

Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar

SAB

Sefydliad Addysg Bellach

SACDA

Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg

ThG

Therapi Galwedigaethol

ThLI

Therapi Iaith a Lleferydd

TN

Theori newid

UCD

Uned Cyfeirio Disgyblion

1. Cyflwyniad

Cefndir polisi

Y system Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ^[Troednodyn 1] yw'r system er mwyn cynorthwyo plant a phobl ifanc 0-25 oed yng Nghymru sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r system ADY yn disodli'r system anghenion addysgol arbennig (AAA) flaenorol ar gyfer plant mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir ac mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion (UCDau), a'r system ar gyfer cynorthwyo pobl ifanc mewn addysg bellach sydd ag anawsterau dysgu a/neu anabledau (AAD). ^[Troednodyn 2] Cyflawnir y gwaith o weithredu'r system ADY dros 4 blynedd, o fis Medi 2021 i fis Awst 2025. Nodir manylion pellach am y rhesymeg dros y diwygiadau, ynghyd â'u prif elfennau, yn y [Gwerthusiad o'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol: adroddiad cwmpasu](#) (Llywodraeth Cymru, 2023).

Gwerthusiad o'r System ADY

Comisiynwyd Arad gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad ffurfiannol pedair blynedd o weithredu'r system ADY. ^[Troednodyn 3] Yn dilyn hyn, cyhoeddwyd [adroddiad cwmpasu](#), a oedd yn cyflwyno canfyddiadau cam cyntaf y gwerthusiad, yn ychwanegol i'r cynlluniau a'r blaenoriaethau ar gyfer y camau sy'n weddill, ym mis Rhagfyr 2023. Cyhoeddwyd adroddiad yn seiliedig ar [arolwg o ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol](#) ym mis Mawrth 2025, a chyhoeddwyd adroddiad yn seiliedig ar [arolwg o rieni a gofawyr](#) ym mis Hydref 2025.

Y camau nesaf

Bwriedir cynnal gwaith ymchwil pen desg a gwaith maes pellach yn ystod camau nesaf y gwerthusiad. Cyhoeddir adroddiad yn cynnwys canfyddiadau ail don o waith ymchwil gydag ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol mewn ysgolion, UCDau, lleoliadau blynyddoedd cynnar, SABau, awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol yn 2027.

Am yr adroddiad hwn

Mae'r adroddiad presennol yn cyflwyno canfyddiadau gwaith ymchwil ansoddol a gynhaliwyd gydag ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol mewn ysgolion, UCDau, lleoliadau

¹[1] Lluniwyd y fframwaith deddfwriaethol ADY presennol gan [Ddeddf Anghenion Addysgu Ychwanegol a Thriwlynys Addysg \(Cymru\) 2018](#) (y Ddeddf), [Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021](#) (y Cod ADY) a rheoliadau a wnaethpwyd dan y Ddeddf.

²[2] Mae'r Ddeddf ADY yn disodli'r deddfwriaeth anghenion addysgol arbennig (AAA) bresennol (y darparir ar ei chyfer yn Rhan 4 Deddf Addysg 1996), Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru a deddfwriaeth anawsterau a/neu anabledau (AAD) (y darparir ar ei chyfer yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000).

³[3] Defnyddir yr ymadrodd 'system ADY' i ddisgrifio'r Ddeddf ADY, y rheoliadau a wnaethpwyd dan y ddeddf, y Cod ADY a dyletswyddau cysylltiedig.

blynyddoedd cynnar, SABau, awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol. Mae hefyd yn cyflwyno gwaith maes gyda dysgwyr sydd ag ADY a rhieni/gofalwyr dysgwyr sydd ag ADY (er mwyn bod yn gryno, defnyddir y term “rhieni” yn yr adroddiad hwn i ddisgrifio ymatebwyr sydd â chyfrifoldeb rhiant h.y. rhieni a gofalwyr). Cynhaliwyd y gwaith maes gydag ymarferwyr rhwng mis Chwefror a mis Rhagfyr 2024 a bu’n archwilio safbwyntiau ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol am agweddau amrywiol ar weithredu’r system ADY. Cynhaliwyd gwaith maes gyda dysgwyr ym mis Mehefin a Gorffennaf 2025, gan archwilio eu safbwyntiau am addysg a’r cymorth y maent yn ei gael gan athrawon a staff eraill. Cynhaliwyd gwaith maes gyda rhieni rhwng mis Tachwedd 2025 a mis Chwefror 2026, a bu’n archwilio eu profiadau o agweddau amrywiol ar y system ADY.

Mae strwythur yr adroddiad fel a ganlyn:

- Mae Pennod 2 yn amlinellu’r fethodoleg ar gyfer yr astudiaethau ardal
- Mae Pennod 3 yn cyflwyno canfyddiadau’r gwaith maes gydag ymarferwyr, sy’n ymwneud â’r meysydd trafod canlynol:
 - Cynnydd cyffredinol wrth weithredu’r system ADY
 - Cynlluniau Datblygu Unigol (CDUau) a phrosesau cynllunio
 - Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY)
 - Rolau statudol
 - Cydweithio a rhannu gwybodaeth
 - Anghytundeb ac apeliadau
 - System ddwyieithog
 - Ffactorau system ehangach
- Mae Pennod 4 yn cyflwyno canfyddiadau’r gwaith maes gyda dysgwyr a rhieni, sy’n ymwneud â’r meysydd trafod canlynol:
 - Profiadau’r lleoliad addysg
 - Cymorth ar gyfer dysgu
 - Cyfarfodydd CDU ac ymarfer sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn
 - Lles
 - Nodau ar gyfer y dyfodol
- Mae Pennod 5 yn cyflwyno crynodeb o’r canfyddiadau

2. Methodoleg

Mae'r bennod hon yn cynnig manylion am y fethodoleg ymchwil. Mae hyn yn cynnwys y broses o gynllunio'r offerynnau ymchwil, y sampl, y gwaith maes a gynhaliwyd, y broses ddadansoddi, a chyfyngiadau'r fethodoleg.

Cynllun yr offeryn ymchwil

Cynlluniwyd canllawiau trafod a chwestiynau cyfweld ar gyfer cynrychiolwyr o wahanol sectorau, dysgwyr a rhieni gan Arad, a chafwyd mewnbwn gan swyddogion Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid. Cyfrannwyd at themâu y cyfweiliadau gan y theori newid ar gyfer y system ADY, a nodir yn yr [adroddiad cwmpasu](#) ar gyfer y gwerthusiad ADY (Llywodraeth Cymru, 2023). Roedd yr amserlenni cyfweld yn dilyn themâu Pennod 3 yr adroddiad hwn yn fras, ac roedd y cwestiynau wedi cael eu teilwra i ymatebwr o wahanol sectorau. Mae Atodiad B yr adroddiad hwn yn cynnwys yr offerynnau ymchwil.

Sampl

Dewiswyd chwe ardal awdurdod lleol i'w cynnwys yn y sampl astudiaethau ardal. Dewiswyd y chwe awdurdod lleol hwn ar sail meini prawf, a oedd yn cynnwys:

- daearyddiaeth: un yr un o'r gogledd-orllewin, y gogledd-ddwyrain, y canolbarth a'r gorllewin, cymoedd y de, dinas yn y de ac ardal yn y de nad yw'n ddinas
- ardal BILl: lleolwyd awdurdodau lleol o fewn pump o'r saith BILl
- canran y dysgwyr sydd ag ADY neu AAA[Troednodyn]
- canran y dysgwyr sydd â CDUau
- poblogaeth y dysgwyr [Troednodyn]
- canran y siaradwyr Cymraeg

Nodir set lawn y meini prawf yn Atodiad A.

Roedd y sampl ar gyfer yr astudiaethau ardal yn cynnwys cynrychiolwyr o ysgolion, lleoliadau blynyddoedd cynnar, UC Dau a SABau, yn ogystal ag awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol. Roedd cyfranogwyr yn y gwaith ymchwil yn gweithio yn ardaloedd y chwe awdurdod lleol yn bennaf, er bod rhai o'r cyfranogwyr ymchwil yn gweithio ar draws mwy nag un ardal awdurdod lleol (e.e. y rhai mewn SABau a BILlau). Ymhellach, dewiswyd nifer fach o gyfranogwyr yn eu lle o ysgolion neu UC Dau mewn awdurdodau lleol cyfagos mewn achosion lle nad oedd cyfranogydd o un o'r chwe awdurdod lleol a ddewiswyd yn y lle cyntaf yn gallu cymryd rhan. Roedd sampl o ddysgwyr o 5 o'r 6 awdurdod lleol a rhieni o 4 o'r 6 awdurdod lleol wedi cymryd rhan yn yr ymchwil hefyd.

Gwaith maes

Cynhaliwyd gwaith maes gyda chyfanswm o 93 o ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol o ysgolion, blynyddoedd cynnar, UC Dau, SABau, awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol.

- cyfanswm o 35 o uwch arweinwyr, CADY, ymarferwyr a staff cymorth o gyfanswm o 16 ysgol a 3 UCD
- 8 o uwch arweinwyr, CADYau, ymarferwyr a staff cymorth o 6 SAB
- 6 o ymarferwyr o 6 o ddarparwyr blynyddoedd cynnar nas cynhelir
- 27 o weithwyr proffesiynol o 6 awdurdod lleol
- 17 o weithwyr proffesiynol o 5 bwrdd iechyd lleol

Roedd cyfanswm o 31 dysgwr o 9 lleoliad ar draws 5 o'r 6 awdurdod lleol a ddewiswyd wedi cymryd rhan mewn trafodaethau ar ffurf grwpiau bychain yn eu lleoliad. Roedd CDU gan ran fwyaf y dysgwyr a oedd wedi cymryd rhan (27 o 31). Roedd y 31 dysgwr yn cynnwys:

- 3 dysgwr o 2 ysgol gynradd (Blwyddyn 6)
- 12 dysgwr o 3 ysgol uwchradd (Blynyddoedd 7, 8 a 9)
- 6 dysgwr o un ysgol arbennig (Blwyddyn 9, 12, 13 ac 14)
- 3 dysgwr o un UCD (Blwyddyn 7, 10 ac 11)
- 7 dysgwr o 2 goleg AB

Roedd cyfanswm o 9 rhiant ar draws 4 o'r 6 awdurdod lleol a ddewiswyd wedi cymryd rhan mewn cyfweiliadau. Estynnwyd gwahoddiad i rieni gan eu lleoliad i lenwi ffurflen mynegi diddordeb fer ar-lein er mwyn cymryd rhan yn y cyfweiliad, ac yna, cysylltodd y tîm ymchwil â nhw i drefnu hyn. Roedd yr holl rieni yn teimlo bod angen cymorth ychwanegol ar eu plentyn nhw i ddysgu, ac roedd gan bob rhiant ond un blentyn sydd â CDU. Roedd sampl y rhieni yn cynnwys:

- 6 rhiant yr oedd ganddynt blant mewn ysgol gynradd (Blynyddoedd 2-6)
- 4 rhiant yr oedd ganddynt blant uwchradd (Blynyddoedd 7-9)
 - Roedd gan rai rhieni fwy nag un plentyn sydd ag ADY

Cynhaliwyd rhan fwyaf y gwaith maes gydag ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol yn ystod cyfweiliadau un-i-un, ond cyfwelwyd rhai cyfranogwyr o'r un sefydliad mewn parau neu grwpiau bychain, gan ddibynnu ar eu dewis a'u hargaeledd. Cynhaliwyd rhan fwyaf y gwaith maes gyda dysgwyr mewn grwpiau bychain, gyda'r CADY neu'r CA yn bresennol. Cynhaliwyd yr holl gyfweiliadau gyda rhieni dan drefniant un-i-un.

Mae Tabl 1 yn dangos nifer y cyfranogwyr o ysgolion, y blynyddoedd cynnar, UCDau, SABau, awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol o bob sector a math o leoliad.

Tabl 1. Nifer y cyfranogwyr o bob sector a math o leoliad yn y gwaith ymchwil

Sector	Nifer y lleoliadau / sefydliadau a oedd wedi cymryd rhan	Nifer y cyfranogwyr sy'n uwch arweinwyr ac yn CADYau	Nifer yr ymarferwyr a staff cymorth	Cyfanswm yr unigolion a oedd wedi cymryd rhan yn yr ymchwil
Ysgolion ac UC Dau	19	31	4	35
Ysgolion cynradd	7	10	1	11
Cyfrwng Cymraeg	3	4	1	5
Cyfrwng Saesneg	4	6	0	6
Ysgolion uwchradd a phob oed (3-16/18)	7	12	2	14
Cyfrwng Cymraeg	2	2	1	3
Cyfrwng Saesneg	5	10	1	11
Ysgolion arbennig	2	3	0	3
UC Dau	3	6	1	7
SABau	6	7	1	8
Darparwyr blynyddoedd cynnar	6	6	0	6
ALLau	6	-	-	27
BILLau	5	-	-	17
Cyfanswm	42	44	5	93

Roedd y 27 o gyfranogwyr yn yr ymchwil o awdurdodau lleol yn cynnwys uwch reolwyr a swyddogion sy'n cyflawni amrywiaeth o rolau. Cyflwynir y rhain yn y tabl isod.

Tabl 2. Nifer y cyfranogwyr yn y gwaith ymchwil o awdurdodau lleol yn ôl math o rôl/maes gwaith

Math o rôl a/neu faes gwaith	Nifer y cyfranogwyr yn y gwaith ymchwil
Swyddogion a rheolwyr cynhwysiant*	12
Swyddogion arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar	5
Swyddogion neu reolwyr ansawdd ADY neu ADY	4
Seicolegwyr Addysg	3
Swyddogion neu gydlynwyr plant sy'n derbyn gofal	2
Dysgu ôl-16	1
Cyfanswm	27

*Mae'n cynnwys mynediad a chynhwysiant, cynhwysiant a chynnydd, ymgysylltu a chymuned, gwasanaeth synhwyraidd, ymddygiad, cynorthwyo dysgu, gwasanaeth lles addysg

Roedd yr 17 o gyfranogwyr yn yr ymchwil o BILlau yn cynnwys gweithwyr proffesiynol sy'n cyflawni amrywiaeth o rolau.

Tabl 3. Nifer y cyfranogwyr yn y gwaith ymchwil o BILlau yn ôl math o rôl/maes gwaith

Math o rôl	Nifer y cyfranogwyr yn y gwaith ymchwil
Therapydd Iaith a Lleferydd	5
Swyddog Arweiniol Clinigol Addysg Dynodedig (SACDA)	4
Ffisiotherapi neu ffisiotherapi pediatrig	4
Ymwelydd Iechyd	1
Pediatregydd Ymgynghorol	1
Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed	1
Nyrsio	1
Cyfanswm	17

Recriwtio

Ym mhob awdurdod lleol, estynnwyd gwahoddiad i Gyfarwyddwyr Addysg a/neu Benaethiaid Cynhwysiant gymryd rhan mewn trafodaeth gychwynnol am y gwaith ymchwil. Gofynnwyd i'r gweithwyr proffesiynol hyn ddarparu manylion cyswllt 3-4 unigolyn sy'n cyflawni rolau sy'n ymwneud â gweithredu'r system ADY, gan gynnwys seicolegwyr addysg, SAADY y Blynnyddoedd Cynnar, penaeithiaid cynhwysiant (neu rolau cyfatebol). Yn dilyn hyn, estynnwyd gwahoddiad i unigolion gymryd rhan mewn cyfweiliadau.

Mewn byrddau iechyd lleol, estynnwyd gwahoddiad i SACDAau gymryd rhan mewn cyfweiliad, a gofynnwyd iddynt gyfleu'r gwahoddiad i gymryd rhan yn y gwaith ymchwil i gynrychiolwyr eraill y BILl sy'n gweithio yn yr awdurdod lleol perthnasol, mewn gwasanaethau gan gynnwys Therapi Iaith a Lleferydd, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS), Therapi Galwedigaethol, Pediatreg Cymunedol a Nyrsio. Yn dilyn hyn, estynnwyd gwahoddiad i unigolion gymryd rhan mewn cyfweiliadau.

Dewiswyd ysgolion i gymryd rhan ar sail fframwaith samplu a gynlluniwyd i sicrhau cynrychiolaeth briodol o ysgolion fesul cam/sector (cynradd, uwchradd, arbennig, UCD) a chyfrwng iaith (cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, cyfrwng Saesneg). Yn ychwanegol i'r meini prawf hyn, dewiswyd ysgolion er mwyn sicrhau gwasgariad priodol yn ôl canran y dysgwyr sydd ag ADY/AAA (dangosydd lefelau cyffredinol ADY yn yr ysgol), CDUau (fel dangosydd y graddau yr oedd eu dysgwyr wedi trosglwyddo i'r system ADY) ac eFSM (fel dangosydd amddifadedd cymdeithasol-economaidd). Roedd o leiaf dair ysgol mewn ardal wledig a thair gyda dosbarthiadau arbennig dynodedig wedi cael eu cynnwys yn y sampl hefyd.

Defnyddiwyd rhestrau o ysgolion a lleoliadau yn y chwe awdurdod lleol i ddewis ysgolion ar hap, yn ôl cam a chyfrwng iaith yn y lle cyntaf. Yna, adolygwyd rhestr yr ysgolion a ddewiswyd yn erbyn y meini prawf samplu cyffredinol (gan gynnwys canran y dysgwyr sydd ag ADY/AAA, CDUau ac eFSM). Pan nad oedd rhestr gyffredinol yr ysgolion yn bodloni'r meini prawf, dewiswyd ysgolion neu leoliadau amgen nes i'r holl feini prawf gael eu bodloni.

Nid oedd saith o'r ysgolion a'r UC Dau a ddewiswyd yn y lle cyntaf wedi gallu cymryd rhan, a chysylltwyd ag ysgolion neu UC Dau eraill a oedd yn bodloni'r meini prawf yn eu lle. Mewn un achos, roedd ysgol neu UC nad oedd wedi gallu cymryd rhan wedi cael eu disodli gan un o awdurdod lleol cyfagos.

Dadansoddi

Paratowyd nodiadau o'r cyfweiliadau a'r trafodaethau grŵp gan yr ymchwilyr, gan ddefnyddio'r cwestiynau yn y canllawiau cyfweld i roi trefn ar y rhain. Adolygwyd sampl o 26 o nodiadau cyfweld gan y tîm ymchwil er mwyn datblygu cyfres o godau cychwynnol ar gyfer gwaith dadansoddi thematig. Dewiswyd nodiadau ar hap o fewn pob sector, gan sicrhau sylw a oedd bron yn gyfartal i awdurdodau lleol, a chynrychiolaeth pob math o ysgol a lleoliad. Roedd y sampl hwn yn cynnwys cynrychiolwyr o'r chwe awdurdod lleol, pum BILI a thua hanner yr ysgolion, UC Dau, lleoliadau blynyddoedd cynnar a SABau. Datblygwyd codau cychwynnol gan ymchwilyr, yr oeddent yn seiliedig ar ymatebion i'r cwestiynau ynghylch "Cynnydd cyffredinol wrth weithredu'r system ADY" yn y canllawiau cyfweld yn bennaf. Bu ymchwilyr yn adolygu ac yn codio'r nodiadau cyfweld, cyn cyfarfod i gymharu'r codau a'r themâu a nodwyd o'r sampl cychwynnol hwn. Yna, adolygwyd yr holl nodiadau cyfweld gan ymchwilyr, a'u labelu gyda'r codau hyn (h.y. labelwyd brawddegau neu baragraffau ym mhob set o nodiadau gyda 'chodau' fel 'cydweithio – yn gweithio'n dda') er mwyn gallu amlygu themâu cyffredin yr adroddwyd amdanynt. Cyfarfu y tîm ymchwil yn rheolaidd yn ystod y broses hon i drafod y themâu a oedd yn dod i'r amlwg ac unrhyw themâu newydd nad oeddent wedi dod i'r amlwg wrth adolygu'r sampl cychwynnol. Mae'r canfyddiadau yn yr adroddiad hwn yn nodi'r themâu a oedd wedi codi amlaf o'r dadansoddiad.

Defnyddir y disgrifwyr canlynol ym Mhenodau 3 a 4 yr adroddiad hwn i wahaniaethu rhwng cyfranogwyr o wahanol sectorau:

- 'Cyfranogwyr' – defnyddiwyd hwn wrth drafod yr holl sectorau neu sawl sector gyda'i gilydd
- 'Cynrychiolwyr awdurdodau lleol neu BILlau' – defnyddiwyd hwn wrth gyfeirio at y sectorau penodol hyn
- 'Cynrychiolwyr ysgolion, SABau a/neu UC Dau' – defnyddiwyd hwn wrth gyfeirio at uwch arweinwyr ac ymarferwyr o'r lleoliadau penodol hyn

Defnyddir disgrifwyr 'gweithwyr iechyd proffesiynol' ac 'ymarferwyr ysgolion/UCDau/SABau' hefyd wrth gyfeirio at y rhai sy'n gweithio yn y sectorau hyn, ond ni ddefnyddir y termau hyn er mwyn disgrifio cyfranogwyr yn y gwaith ymchwil.

Cyfyngiadau methodolegol

Wrth ddehongli'r canfyddiadau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn, mae'n bwysig cofio rhai o gyfyngiadau'r fethodoleg.

Mae'r ymchwil yn seiliedig ar samplau cymharol fach o gyfranogwyr a oedd wedi cytuno cymryd rhan neu, yn achos rhieni, a oedd wedi mynegi diddordeb mewn cymryd rhan, sy'n golygu nad yw'r canlyniadau yn rhai cadarn ar lefel ystadegol, ac na ellir eu cyffredinolï i'r boblogaeth. Er enghraifft, efallai y byddai rhieni yr oedd ganddynt bryderon neu a oedd wedi cael profiadau negyddol wedi cael mwy o gymhellant i gymryd rhan. Roedd methodoleg y gwaith ymchwil yn ceisio sicrhau trawsdoriad priodol o ran awdurdodau lleol, lleoliadau a sefydliadau ac unigolion a oedd wedi cymryd rhan. Fodd bynnag, ni fwriadwyd i'r sampl fod yn gynrychioliadol o boblogaeth ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol.

Yn ogystal, dylid ystyried y ddibyniaeth ar ddata a hunan-adroddwyd, yn ogystal â gwahaniaethau rhwng dehongliad a dealltwriaeth cyfranogwyr yn y gwaith ymchwil o'r cwestiynau. Mae'r canfyddiadau yn seiliedig ar safbwyntiau goddrychol cyfranogwyr, er enghraifft o'r hyn yr oeddent yn ystyried nad oedd yn gweithio'n dda neu nad oedd yn gweithio gystal wrth weithredu'r system ADY, yn hytrach na mesurau mwy systematig, gwrthrychol ac wedi'u dilysu. Gallai ffactorau megis amseru'r gwaith maes (e.e. materion a heriau penodol yr oeddent yn eu hwynebu ar y pryd) neu fethu cofio gwybodaeth berthnasol a allai arwain at orliwio neu danadrodd materion fod wedi dylanwadu ar safbwyntiau a hunan-adroddwyd gan gyfranogwyr.

Mae'n bwysig cofio bod natur ansoddol y gwaith maes yn golygu nad oedd yr holl unigolion a gyfwelwyd wedi cyflwyno sylwadau ar yr holl faterion a drafodir yn yr adroddiad. Mae hyn yn golygu, pe bai rhan fwyaf y rhai a gyfwelwyd yn nodi eu bod yn teimlo bod agwedd o'r system yn gweithio'n dda, nad yw hyn o reidrwydd yn awgrymu bod rhai yn teimlo nad yw'r agwedd hon ar y system yn gweithio'n dda. Dylid cofio hyn wrth ddehongli'r canfyddiadau.

3. Canfyddiadau

Mae'r adran hon yn cynnig crynodeb o'r canfyddiadau o'r gwaith maes a gynhaliwyd fel rhan o astudiaethau achos ardal yr awdurdodau lleol. Mae'n cyflwyno'r themâu amlycaf ac a godwyd amlaf, a oedd yn deillio o drafodaethau gydag ysgolion a lleoliadau, SABau, awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol.

Cyflwynir y rhain dan benawdau sy'n cyd-fynd â'r pynciau a archwiliwyd yn ystod trafodaethau lled-strwythuredig ar draws y chwe astudiaeth achos ardal awdurdod lleol. Y rhain yw:

- Cynnydd cyffredinol wrth weithredu'r system ADY
- Cynlluniau datblygu unigol (CDUau) a phrosesau cynllunio
- Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY)
- Rolau statudol
- Cydweithio a rhannu gwybodaeth
- Anghytundebau a'r broses apeliadau
- System ddwyieithog
- Ffactorau system ehangach

Cynnydd cyffredinol wrth weithredu'r system ADY

Mae'r adran hon yn amlinellu canfyddiadau'r gwaith ymchwil mewn perthynas â'r cynnydd cyffredinol a wnaethpwyd wrth weithredu'r system ADY. Gofynnwyd i gyfranogwyr yn y gwaith ymchwil i roi crynodeb:

- o'u hargraffiadau cyffredinol am yr hyn a oedd wedi gweithio'n dda o ran y cynnydd cyffredinol a sicrhawyd wrth weithredu'r system ADY
- o'r hyn nad oedd wedi gweithio gystal, gan gynnwys unrhyw rwystrau a oedd yn atal gweithredu a chanlyniadau anfwriadol

Cydweithio

Mewn perthynas â gweithredu'r system ADY, roedd rhan fwyaf y cyfranogwyr ar draws awdurdodau lleol, SABau, lleoliadau blynyddoedd cynnar a BILlau, yn ogystal â rhai cynrychiolwyr ysgolion, o'r farn bod y cydweithio rhwng ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol,

o fewn ac ar draws sectorau, yn gweithio'n dda. Roedd rhan fwyaf y cynrychiolwyr o awdurdodau lleol wedi cynnig enghreifftiau o'r cydweithio yn gweithio'n dda, megis:

- gweithredu rhwydweithiau aml-asiantaethol (e.e. rhwydweithiau blynyddoedd cynnar yn helpu i adnabod ADY yn gynharach a gwella prosesau pontio)
- cydweithio gwell rhwng awdurdodau lleol a SABau (e.e. trwy gyfrwng cyfarfodydd mwy rheolaidd rhwng swyddogion ôl-16 awdurdodau lleol a CADYau SABau)
- cydweithio gwell rhwng awdurdodau lleol a BILlau (trwy gyfrwng ymgysylltu rhwng cynrychiolwyr awdurdodau lleol a SACDAau)
- cydweithio gwell rhwng CADYau o fewn ac ar draws clystyrau ysgol

Cyfeiriodd rhai cynrychiolwyr ysgolion at enghreifftiau lle'r oedd cydweithio yn gweithio'n dda, megis gweithio fel clwstwr rhwng CADYau a/neu weithio mewn partneriaeth gyda chynrychiolwyr BILlau ac awdurdodau lleol. Roedd cynrychiolwyr SABau yn adleisio safbwyntiau awdurdodau lleol, bod y cydweithio yn gwella rhyngddynt ac roeddent hefyd wedi cyfeirio at gydweithio gwell gydag ysgolion fel rhan o'u prosesau pontio. Cyfeiriodd y rhan fwyaf o gynrychiolwyr BILlau at welliant cyffredinol o ran y cydweithio rhwng sectorau addysg ac iechyd, a chyfeiriodd rhai hefyd at SACDAau yn hwyluso cydweithio gwell rhwng gweithwyr proffesiynol yn eu BIL.

Ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn

Soniodd cynrychiolwyr awdurdodau lleol ac ysgolion am ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn fel agwedd ar y system ADY a oedd yn gweithio'n dda yn gyffredinol, ac roeddent yn teimlo ei fod yn cael dylanwad cadarnhaol ar berthnasoedd rhwng ysgolion, dysgwyr a rhieni. Roedd rhai ysgolion yn teimlo bod y pwyslais ar ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn hyrwyddo system fwy gynhwysol yn gyffredinol.

Systemau, templedi a dysgu proffesiynol

Roedd rhan fwyaf y cynrychiolwyr awdurdodau lleol a BILlau yn teimlo bod y systemau a ymgorfforwyd er mwyn gweithredu'r diwygiadau ADY (e.e. systemau CDU ar-lein, ffurflenni a/neu dempledi safonol, dysgu proffesiynol i staff, cyfarfodydd panel neu rwydwaith rheolaidd) yn cael eu hymwreiddio ac yn helpu i wella'r ymwybyddiaeth a'r ddealltwriaeth o ADY yn eu sefydliadau. Adroddodd cynrychiolwyr ysgolion a SABau bod y systemau gweithredu hyn wedi gwella dealltwriaeth ymarferwyr o ADY a DDdY trwy gyfrwng prosesau ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a hyfforddi.

Llwyth gwaith a chapasiti

Adroddodd bron pob cyfranogydd bod pwysau ar staff a chapasiti sefydliadol i weithredu'r system ADY, yn bennaf oherwydd heriau sy'n ymwneud â chyllid a llwyth gwaith cynyddol i ymarferwyr o ganlyniad i weithredu'r system ADY. Cyfeiriodd rhan fwyaf yr awdurdodau lleol at heriau sy'n ymwneud â chyllid ac roeddent yn teimlo bod costau uwch ynghlwm â gweithredu'r system, er enghraifft o ran amser staff, ymgysylltu â rhieni, rheoli prosesau datrys anghydfodau a'r angen, mewn rhai achosion, i fanteisio ar gyngor cyfreithiol. Adroddodd rhai cynrychiolwyr awdurdodau lleol bod eu sefydliad wedi llwyddo i sicrhau grantiau i gefnogi swyddi newydd penodol er mwyn gweithredu'r system ADY, ond roeddent yn pryderu am gynaliadwyedd y cyllid hwn. Roedd holl gynrychiolwyr ysgolion a SABau yn teimlo bod llwyth gwaith CADYau ac ymarferwyr eraill wedi cynyddu, a phriodolwyd hyn i'r cyfrifoldebau gweinyddol o baratoi CDUau, trefnu cyfarfodydd ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a mwy o ymgysylltu â rhieni fel rhan o brosesau cynllunio ac adolygu. Cyfeiriodd rhai ysgolion hefyd at ostyngiad o ran capasiti y staff, yn enwedig Gweithwyr Cymorth Dysgu (GCD). Roedd cynrychiolwyr sefydliadau blynyddoedd cynnar wedi mynegi safbwyntiau cadarnhaol am y system ADY, yn enwedig prosesau cynllunio a rôl y SAADY y Blynyddoedd Cynnar ond roeddent yn teimlo hefyd bod pwysau llwyth gwaith ychwanegol ynghlwm â gweithredu'r system ADY (er enghraifft, wrth baratoi ar gyfer a chynorthwyo cyfarfodydd ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn).

Amserlenni

Cyfeiriodd rhai cynrychiolwyr awdurdodau lleol ac ysgolion at heriau wrth fodloni terfynau amser statudol, yn enwedig wrth sicrhau mewnbwn yr holl ymarferwyr a'r gweithwyr proffesiynol perthnasol o fewn y terfynau amser. Adroddodd cynrychiolwyr awdurdodau lleol bod hyn yn gallu bod yn arbennig o heriol mewn achosion lle y cyflwynwyd tystiolaeth newydd sawl wythnos i mewn i'r broses, gan gyfyngu ar yr amser a oedd ganddynt i ymateb a/neu geisio eu cyngor eu hunain neu fewnbwn gan eraill (e.e. gweithwyr iechyd proffesiynol) pe bai ei angen.

Diffiniadau o ADY a DDdY

Adroddodd rhai cyfranogwyr ar draws pob sector bod heriau yn bodoli ynghylch eglurder y diffiniadau o ADY a DDdY. Roedd cynrychiolwyr awdurdodau lleol, SABau a BILlau yn barnu bod amrywioldeb yn bodoli o ran ansawdd y CDUau ar draws ysgolion ac awdurdodau lleol a bod gwahanol ddehongliadau a dealltwriaeth o'r hyn sy'n cyfateb â DDdY a'r hyn a ystyriwyd yn ddarpariaeth 'gyffredinol' neu 'a dargedir'.^[Troednodyn 4]

Cynlluniau Datblygu Unigol (CDUau) a phrosesau cynllunio

Mae'r adran hon yn amlinellu canfyddiadau'r gwaith ymchwil mewn perthynas â CDUau a phrosesau cynllunio. Holwyd barn cyfranogwyr yn y gwaith ymchwil ynghylch ymwreiddio

⁴[4] Ni chaiff y termau hyn eu diffinio yn Neddf ADY nac yn y Cod ADY.

ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn fel rhan o brosesau cynllunio, datblygu a chynnal dogfennau CDU, a phrosesau adolygu CDU.

Ymwreiddio ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn fel rhan o brosesau cynllunio

Roedd cyfranogwyr ym mhob ardal awdurdod lleol, ac ar draws pob sector, wedi ymateb yn gadarnhaol ar y cyfan am ddull gweithredu ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn tuag at gyfarfodydd i gynorthwyo wrth baratoi ac adolygu CDUau. Roedd tystiolaeth o drafodaethau gyda chynrychiolwyr awdurdodau lleol yn dynodi bod cytundeb gyda'r egwyddorion a'r nodau craidd a nodwyd yn y Cod, a bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal mewn ffordd sy'n adlewyrchu dull gweithredu ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Roedd cynrychiolwyr awdurdodau lleol yn teimlo hefyd bod y dull gweithredu yn cyd-fynd â symud i ffwrdd o dargedau i ganlyniadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ac yn cefnogi hyn, gan gofnodi anghenion a dyheadau dysgwyr. Adleisiwyd hyn gan gynrychiolwyr ysgolion, lleoliadau blynyddoedd cynnar a SABau, yr oeddent yn teimlo'n gadarnhaol ar y cyfan ynghylch eu profiadau o gyfarfodydd ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Adroddodd cynrychiolwyr ysgolion a SABau bod cyfarfodydd ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn effeithiol wrth gynnwys dysgwyr mewn trafodaethau ynghylch eu hanghenion a chyfrannu at ddatblygiad CDUau mewn ffordd ystyrlon. Adroddodd cynrychiolwyr ysgolion bod canllawiau digonol a phriodol wedi cael eu cyflwyno mewn perthynas ag ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, a'u bod yn gallu manteisio ar hyfforddiant a dysgu proffesiynol perthnasol.

Roedd cynrychiolwyr BILlau yn gwerthfawrogi cyfleoedd i fynychu cyfarfodydd ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan nodi eu bod yn rhan werthfawr o'r broses o gynllunio CDU a'u bod yn cynnig cyfleoedd i weithwyr iechyd proffesiynol ffurfio perthnasoedd gydag ysgolion a gyda theuluoedd. Adroddodd cynrychiolwyr BILlau hefyd bod eu cyswllt nhw yn cynorthwyo datblygiad canlyniadau manylach a mwy ystyrlon i ddysgwyr o fewn CDUau.

Esboniodd rhai cynrychiolwyr awdurdodau lleol ac ysgolion y gallai fod yn anodd sicrhau bod gweithwyr iechyd proffesiynol yn ymgysylltu yn ystod cyfarfodydd ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, a theimlwyd bod hyn yn cael effaith niweidiol ar ansawdd CDUau ar brydiau, neu'n arwain at oedi wrth lunio CDUau. Cydnabuwyd hyn gan gynrychiolwyr BILlau, a nododd nad oedd clinigwyr wastad yn gallu mynychu cyfarfodydd ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn oherwydd galwadau eraill ar eu hamser a'r effaith ar waith arall pe baent yn mynychu pob cyfarfod ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Roedd tybiaeth ymhlith rhai cynrychiolwyr BILlau na chaiff yr amser ei reoli mewn ffordd effeithlon yn ystod cyfarfodydd ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn bob amser, ac na roddir digon o ffocws yn ystod cyfarfodydd ar anghenion y plentyn neu'r person ifanc a'u canlyniadau bwriadedig. Esboniodd rhai BILlau nad ydynt yn cael rhybudd digonol i fynychu cyfarfodydd ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn neu i ddarparu gwybodaeth a fydd yn cyfrannu at gynnwys cyfarfodydd.

Adroddodd cynrychiolwyr ar draws y gwahanol sectorau am heriau sy'n gysylltiedig â chyfarfodydd ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn hefyd, megis y ffaith eu bod yn aml yn cymryd llawer o amser ac yn cael effaith negyddol ar eu llwyth gwaith. Fodd bynnag,

soniodd y cynrychiolwyr hyn hefyd am bwysigrwydd sicrhau bod amser ar gael i ddysgwyr a rhieni rannu gwybodaeth a'u persbectifau.

CDUau

Roedd cyfranogwyr ar draws pob sector yn teimlo bod CDUau yn ddatblygiad cadarnhaol ac yn rhan bwysig o helpu i sicrhau bod DDdY yn bodloni anghenion dysgwyr yn well.

Ystyriwyd y broses o gynnwys dysgwyr mewn trafodaethau am eu hanghenion er mwyn cynorthwyo datblygiad cynlluniau sy'n cael eu teilwra yn fwy i'r plentyn unigol (o'u cymharu â Datganiadau blaenorol dan AAA). Roedd cyfranogwyr yn teimlo bod y ffocws hwn ar gynnwys dysgwyr, ac adnabod eu hanghenion, eu canlyniadau bwriadedig a'u dyheadau mewn CDUau yn golygu bod ganddynt fwy o werth na chynlluniau blaenorol.

Roedd cynrychiolwyr awdurdodau lleol wedi tanseilio pwysigrwydd sicrhau bod prosesau cadarn yn eu lle er mwyn goruchwyllo a chynorthwyo ansawdd CDUau. Gydag amser, adroddwyd bod prosesau sicrhau ansawdd wedi gwella, ac roedd rhai awdurdodau lleol yn teimlo bod hyn yn helpu i roi sylw i'r amrywioldeb o ran ansawdd CDUau. Adroddodd cynrychiolwyr awdurdodau lleol eu bod wedi rhannu canllawiau ac wedi datblygu templedi arfer da er mwyn helpu ysgolion i gwblhau CDUau ac adnabod DDdY.

Pwysleisiodd ysgolion a SABau bod CDUau yn cael eu paratoi gan staff sy'n adnabod y dysgwr, a thrwy gydweithio'n agos gyda rhieni fel rhan o'r broses, roedd y cynlluniau yn effeithiol wrth nodi bod DDdY yn bodloni anghenion dysgwyr. Roedd nifer o gynrychiolwyr ysgolion yn ystyried bod CDUau yn cynnig adroddiad holistig o'r plentyn unigol a'r cymorth ychwanegol sy'n ofynnol er mwyn eu helpu i wireddu eu potensial.

Adroddodd cynrychiolwyr lleoliadau blynyddoedd cynnar eu bod yn teimlo bod eu rôl wrth gynorthwyo datblygiad CDUau yn glir. Roedd cynrychiolwyr lleoliadau blynyddoedd cynnar yn ymwybodol o'u SAADY y Blynyddoedd Cynnar ac roeddent yn teimlo eu bod yn gallu cysylltu â nhw yn uniongyrchol neu trwy gyfrwng cyfarfodydd rheolaidd neu rwydweithiau y maent yn eu mynychu. Adroddodd lleoliadau blynyddoedd cynnar y byddai modd adnabod anghenion dysgwr ar ôl iddynt gofrestru, yna byddai ymarferwyr yn y lleoliad yn trafod hyn gyda rhieni a'u SAADY y Blynyddoedd Cynnar. Adroddodd cynrychiolwyr lleoliadau blynyddoedd cynnar y gallent gyfarfod â rhieni y dysgwr wedyn i drafod eu hanghenion, monitro'r dysgwr dros gyfnod gan ddefnyddio'r proffil blynyddoedd cynnar, drafftio proffil un tudalen sy'n cynnwys targedau a monitro cynnydd yn erbyn hwn ar ôl ychydig wythnosau. Adroddodd cynrychiolwyr lleoliadau blynyddoedd cynnar hefyd y gallent gyfeirio'r plentyn at y SAADY y Blynyddoedd Cynnar fel y byddai modd i'w hanghenion gael eu hystyried ymhellach gan yr awdurdod lleol, gyda gweithwyr proffesiynol yr awdurdod lleol yn gallu ymweld â'r lleoliad i arsylwi'r dysgwr pe bai angen.

Adroddodd rhai cynrychiolwyr lleoliadau blynyddoedd cynnar eu bod wedi cynnal cyfarfodydd ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn gyda chynrychiolwyr yr awdurdod lleol a rhieni. Adroddodd cynrychiolwyr lleoliadau blynyddoedd cynnar eu bod wedi darparu tystiolaeth i gefnogi datblygiad CDUau, yn ogystal â monitro cynnydd yn erbyn targedau

CDU, gan adrodd yn ôl am hyn i'w SAADY y Blynyddoedd Cynnar. Adroddodd rhai cynrychiolwyr lleoliadau blynyddoedd cynnar eu bod yn defnyddio system CDU ar-lein eu hawdurdod lleol i lanlwytho gwybodaeth am gynnydd dysgwyr yn erbyn targedau CDU.

Er y gefnogaeth gyffredinol ar gyfer CDUau, mynegwyd pryder gan gyfranogwyr yn y gwaith ymchwil ynghylch rhai agweddau ar y system newydd. Nododd cynrychiolwyr awdurdodau lleol bod anghysondebau o ran y ffordd y caiff ADY eu hadnabod ac o ran y ddarpariaeth a nodir mewn CDUau rhwng ysgolion ac ar draws Cymru.

Nododd ysgolion mewn sawl ardal awdurdod lleol nad yw CDUau wastad yn cofnodi'r cyd-destun ehangach i ddysgwyr sydd ag anghenion mwy cymhleth a'u bod weithiau yn cynnwys canlyniadau amherthnasol neu aneglur. Mynegwyd pwyntiau tebyg gan rai cynrychiolwyr BILlau, gan awgrymu bod fformat CDUau yn 'rhy anhyblyg' ar brydiau. Nododd rhai a gyfwelwyd o BILlau nad yw canlyniadau iechyd a chanlyniadau CDUau yn cyd-fynd weithiau: esboniodd cynrychiolwyr BILlau eu bod yn nodi canlyniadau ar sail yr angen clinigol, nad yw wastad yn adlewyrchu'r canlyniadau dysgu bwriadedig a nodir mewn CDUau.

Sylw a wnaethpwyd dro ar ôl tro gan gynrychiolwyr o bob sector oedd y ffaith bod datblygiad CDUau wedi creu llwyth gwaith ychwanegol sylweddol i staff. Yn arbennig, adroddodd cynrychiolwyr ysgolion bod yr amserlenni statudol yn creu heriau i CADYau a staff eraill a bod cwblhau CDUau, gan gynnwys ar gyfer dysgwyr sydd ag anghenion mwy cymhleth, wedi rhoi pwysau sylweddol ar gapasiti CADYau. Nododd rhai ysgolion bod hyn yn effeithio ar ansawdd cynlluniau neu'n arwain at ansawdd amrywiol. Esboniodd cynrychiolwyr lleoliadau blynyddoedd cynnar bod cyfrannu at ddatblygiad CDUau a monitro yn erbyn targedau yn cymryd amser, ond roeddent yn teimlo ei fod yn fuddiol i'r plant y maent yn gweithio gyda nhw.

Adolygiadau

Cyfeiriodd cynrychiolwyr ysgolion at bwysigrwydd prosesau adolygu effeithiol ac amserol, gan nodi hefyd bod y dewis i adolygu CDUau, cyn y terfyn amser 12 mis statudol, yn eu galluogi i ymateb i newidiadau parhaus o ran anghenion dysgwyr. Bu cyfranogwyr o ysgolion a BILlau yn myfyrio am y ffordd y byddai modd rheoli'r gwaith cynllunio ar gyfer adolygiadau mewn ffordd effeithlon oherwydd yr amseroedd rhagarweiniol cymharol hir a'r prosesau strwythuredig. Roedd cyfranogwyr iechyd wedi myfyrio am y ffordd y mae'r amserlenni ar gyfer cyfarfodydd adolygu ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn galluogi ysgolion i roi rhybudd ymlaen llaw i weithwyr iechyd proffesiynol o gyfarfodydd, yr oeddent wedi adrodd am heriau wrth geisio mynychu'r cyfarfodydd hyn ar ôl cael llai o rybudd. Fodd bynnag, pwysleisiodd cyfranogwyr iechyd hefyd y gallai fod yn anodd mynychu cyfarfodydd adolygu o hyd oherwydd cyfyngiadau amser a'r capasiti cyfyngedig i fynychu cyfarfodydd a pharatoi gwybodaeth i'w chynnwys mewn CDUau. Gwaethygyd y sefyllfa hon ymhellach gan ddiffyg eglurder ymhlith rhai cynrychiolwyr BILlau ynghylch a yw mynychu cyfarfodydd adolygu yn rhywbeth gorfodol.

Nododd cynrychiolwyr o ysgolion, SABau ac ALLau bod eu sectorau yn cydweithio'n dda yn gyffredinol, gan alluogi adolygiadau i gael eu cynnal mewn ffordd effeithiol. Fodd bynnag, amlygodd rhai ysgolion hefyd bod prosesau gwael ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng sectorau weithiau yn arwain at oedi wrth gynnal adolygiadau amserol a chynhwysfawr. Roedd hyn yn cynnwys oedi gan awdurdodau lleol wrth rannu gwybodaeth gydag ysgolion am geisiadau ysgolion i ailystyried penderfyniadau, megis oedi wrth gydnabod bod ceisiadau wedi cyrraedd, neu oedi wrth lunio CDUau a gynhelir gan yr ALL.

Adroddodd rhai cynrychiolwyr SABau nad oedd pob dysgwr dros 16 oed yn rhoi eu caniatâd i'w rhieni fynychu cyfarfodydd adolygu. Nododd y cyfranogwyr hyn ei bod yn aml yn heriol i rieni orfod addasu mewn achosion o'r fath, ar ôl iddynt fod yn gyfarwydd â mynychu cyfarfodydd ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn gyda'u plentyn yn flaenorol.

Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY)

Mae'r adran hon yn amlinellu canfyddiadau'r gwaith ymchwil mewn perthynas â DDdY. Holwyd barn cyfranogwyr yn y gwaith ymchwil am:

- gysondeb o ran y dehongliad a'r ddealltwriaeth o DDdY
- a oes DDdY ddigonol ar gael i ddiwallu anghenion dysgwyr
- a oes gwybodaeth a sgiliau digonol i gyflwyno DDdY ar draws y system ADY
- a oes unrhyw rwystrau sy'n atal cyflwyno DDdY.

Cysondeb wrth ddehongli DDdY

Ym mhob ardal leol a gafodd eu cynnwys yn yr astudiaeth hon, nododd cyfranogwyr o bob sector amrywiadau ac anghysondeb o ran y ddealltwriaeth o DDdY. Amlygont y ffaith y gallai gwahanol ddehongliadau o DDdY effeithio ar ddulliau gweithredu er mwyn sicrhau darpariaeth briodol a gosod targedau o fewn CDUau. Soniodd rhai cynrychiolwyr awdurdodau lleol am ymateb i'r her hon trwy ddatblygu offerynnau a mapiau darpariaeth i dywys ysgolion wrth gynllunio darpariaeth. Nododd y cynrychiolwyr hyn o awdurdodau lleol bod yr offerynnau yn cynorthwyo prosesau sicrhau ansawdd a'u bod wedi cael eu datblygu trwy gyfrwng gwaith cydweithio rhanbarthol. Roeddent yn cydnabod nad yw'r dehongliadau o DDdY a oedd wedi cyfrannu at yr offerynnau yn cyd-fynd â dulliau gweithredu mewn rhanbarthau eraill efallai.

Adroddodd cynrychiolwyr ysgolion a SABau bod anghysondeb rhwng lleoliadau wrth iddynt ddiffinio DDdY a nodont bod angen canllawiau er mwyn helpu i egluro hyn. Amlygodd cynrychiolwyr o'r ddau sector hwn sut y byddai DDdY mewn un lleoliad yn cael ei ystyried fel 'darpariaeth gyffredinol' mewn un arall, gan amlygu'r gwahaniaeth o ran y ffordd y caiff DDdY ei diffinio a'i darparu mewn gwirionedd. Bu rhai ysgolion yn myfyrio am y ffordd y gallai rhieni gael disgwyliadau uchel o DDdY, gan nodi felly y gallai amrywiadau o ran DDdY

rhwng lleoliadau fod yn anodd i rieni eu deall. Yn ogystal, adroddodd cynrychiolwyr BILlau am ddiffyg eglurder wrth ddiffinio'r hyn a olygir gan DDdY a gaiff ei sicrhau gan gorff GIG, ac roeddent yn teimlo nad oes gan ysgolion ddealltwriaeth o amrediad y DDdY a gaiff ei sicrhau gan gorff GIG ac sydd ar gael, y tu hwnt i gymorth 1:1.

Adroddodd cynrychiolwyr ysgolion a SABau am ddiffyg cysondeb o ran ble y caiff DDdY ei chofnodi mewn CDUau, gyda rhai o'r cyfranogwyr hyn yn amlygu sut y maent yn ceisio datrys hyn trwy eu gwaith clwstwr. Yn ogystal, adroddodd cyfranogwyr o bob sector eu bod yn cydweithio o fewn eu clystyrau a'u rhanbarthau er mwyn cytuno ar ddulliau gweithredu cyson o ran diffiniadau DDdY pan fo modd.

Nododd rhai cynrychiolwyr awdurdodau lleol bod adrannau cyfreithiol wedi ei chael hi'n anodd dehongli'r diffiniad o DDdY o fewn y Cod, a'u bod wedi mynegi pryder pellach ei bod yn ymddangos bod gwahanol safbwyntiau ynghylch y diffiniad o DDdY rhwng Estyn, Llywodraeth Cymru a'r Tribiwnlys Addysg, sy'n golygu y gallent fod yn agored i niwed mewn achosion a fyddai'n mynd i gyfraith.

Amlygodd rhai cynrychiolwyr ysgolion anghysondebau rhwng y sectorau iechyd ac addysg ynghylch a yw rhai anghenion dysgwyr yn rhai addysgol neu iechyd, gan arwain at wahaniaethau barn ynghylch adnabod DDdY addas. Nododd y cyfranogwyr hyn, pan fydd anghenion meddygol ac addysgol yn gorgyffwrdd, er enghraifft ynghylch iechyd meddwl, ei bod yn aneglur pa sector ddylai fod yn cyflwyno DDdY.

Digonolrwydd DDdY i ddiwallu anghenion

Roedd cyfranogwyr o'r holl awdurdodau lleol yn teimlo, yn gyffredinol, bod DDdY ddigonol ar gael er mwyn bodloni anghenion rhan fwyaf y dysgwyr, fodd bynnag, adroddodd rhai cynrychiolwyr ysgolion bod cyfyngiadau amser ac o ran y gyllideb yn amharu ar eu gallu i gyflwyno DDdY sy'n gynhwysfawr ac sy'n ddigon aml. Yn ogystal, pwysleisiodd sawl cynrychiolydd ysgolion bod cymhlethdod cynyddol anghenion rhai dysgwyr yn creu her i'w gallu i gynorthwyo'r dysgwyr hyn mewn ffordd effeithiol. Mae'n nodedig bod cynrychiolwyr awdurdodau lleol ac ysgolion wedi adrodd am heriau arwyddocaol wrth fanteisio ar ddarpariaeth arbenigol o ganlyniad i ddiffyg argaeledd, gan amlygu'r ffordd y mae hyn wedi cael effaith negyddol ar eu gallu i ddiwallu anghenion rhai dysgwyr, yn enwedig y rhai y mae gofyn iddynt gael cymorth a darpariaeth mwy cymhleth. Yn ogystal, pwysleisiodd rhai cynrychiolwyr ysgolion sut yr oeddent wedi datblygu amrediad o DDdY i fodloni amrywiaeth o anghenion, a ddarparir ar ffurf ymateb graddedig fel arfer.

Mynegwyd safbwyntiau cymysg gan gynrychiolwyr BILlau ynghylch digonolrwydd DDdY a gaiff ei sicrhau gan gorff GIG. Roedd rhai yn teimlo bod digon o'r DDdY hon ar gael yn eu rhanbarth, a'i bod yn cael adnoddau digonol, ond amlygodd cynrychiolwyr BILlau eraill heriau penodol ynghylch capasiti, gydag enghreifftiau yn cynnwys anawsterau wrth gyflwyno DDdY trwy gyfrwng CAMHS a therapïau, megis iaith a lleferydd. Yn gysylltiedig â hyn, roedd rhai cynrychiolwyr BILlau wedi mynegi pryderon ynghylch gor-addo DDdY mewn CDUau a chodi disgwyliadau rhieni/gofalwyr, a oedi wedi peri iddynt fabwysiadu ymateb

gwyliadwrus i gofnodi DDdY mewn CDUau yn lle hynny. Arsylwodd y cynrychiolwyr BILI hyn y gallai hyn arwain at rieni yn teimlo nad yw anghenion eu plentyn yn cael eu bodloni'n llawn.

Gwybodaeth a sgiliau er mwyn cyflwyno DDdY

Roedd cynrychiolwyr awdurdodau lleol, ysgolion a BILlau yn teimlo bod sgiliau a gwybodaeth ddigonol er mwyn cyflwyno DDdY yn gyffredinol. Adroddodd rhai cynrychiolwyr awdurdodau lleol eu bod wedi buddsoddi mewn dysgu proffesiynol ar gyfer eu staff a'u bod wedi trefnu timau dynodedig i oruchwylio DDdY, am gost ychwanegol. Nododd rhai cynrychiolwyr ysgolion bod eu staff wedi cael hyfforddiant da a'u bod yn brofiadol, er yr adroddont hefyd bod heriau wrth geisio sicrhau mewnbyn digonol gan Weithwyr Cymorth Dysgu oherwydd diffyg capasiti.

Rhwystrau wrth gyflwyno DDdY

Disgrifiodd cynrychiolwyr ysgolion a SABau sawl rhwystr sy'n atal darpariaeth effeithiol DDdY, megis llwythi gwaith uwch o ganlyniad i fodloni anghenion cymhleth, diffyg capasiti staff, a lleoedd annigonol oherwydd amgylchedd ffisegol cyfyngedig eu safle. Amlygodd rhai ysgolion hefyd sut yr oeddent wedi treulio amser sylweddol yn gweinyddu prosesau dan y system ADY, a nodont bod hyn wedi eu hatal rhag treialu dulliau newydd o ran DDdY.

Nododd cynrychiolwyr ar draws pob sector bod diffyg argaeledd arbenigwyr cyfrwng Cymraeg i gyflwyno DDdY, megis therapyddion iaith a lleferydd, yn bryder, a gwnaethpwyd arsylwadau y gallai hyn arwain at annhegwch o ran darpariaeth gwasanaethau ar gyfer y rhai y mae'n well ganddynt gael DDdY yn Gymraeg.

DDdY mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar

Disgrifiodd cynrychiolwyr lleoliadau blynyddoedd cynnar addasiadau yr oeddent wedi llwyddo i'w gwneud i'w darpariaeth ar gyfer plant sydd ag ADY. Dywedodd rhai cynrychiolwyr lleoliadau blynyddoedd cynnar eu bod wedi manteisio ar grantiau ar gyfer offer i gynorthwyo rhai dysgwyr sydd ag ADY, ac roedd rhai wedi manteisio ar gymorth neu ddysgu proffesiynol gan staff awdurdod lleol. Adroddodd cynrychiolwyr lleoliadau blynyddoedd cynnar mai capasiti staff yw'r brif her y maent yn ei hwynebu wrth gyflwyno DDdY, yn enwedig o ystyried y cymarebau staff-i-ddysgwyr y mae angen iddynt eu cynnal ar gyfer yr holl blant.

Gofynnodd rhai cynrychiolwyr ysgolion ac awdurdodau lleol am ganllawiau a chymorth pellach ynghylch DDdY gan Lywodraeth Cymru er mwyn eu galluogi i ddiwallu anghenion dysgwyr yn well, gydag enghreifftiau a oedd yn cynnwys darparu pecynnau offer DDdY Cymraeg, astudiaethau achos DDdY arfer da a diffiniadau DDdY cliriach.

Rolau statudol

Mae'r adran hon yn amlinellu'r canfyddiadau mewn perthynas â rolau statudol, sef y CADY, y SAADY y Blynnyddoedd Cynnar, a'r SACDA. Holwyd barn cyfranogwyr yn y gwaith ymchwil am yr hyn sy'n gweithio'n dda mewn perthynas â gweithredu eu rôl fel CADY, SAADY y Blynnyddoedd Cynnar, neu SACDA, a pha heriau yr oeddent wedi dod ar eu traws. Yn ogystal, holwyd cyfranogwyr yn y gwaith ymchwil am eglurder rolau a chyfrifoldebau ar draws y system, ac effaith y diwygiadau ADY ar gapasiti y gweithlu a lles staff o ran CADYau.

CADY

Roedd rhan fwyaf y cyfranogwyr ar draws sectorau awdurdodau lleol, ysgolion a SABau wedi mynegi pryder ynghylch y llwyth gwaith sy'n gysylltiedig â rôl y CADY. Tanlinellodd rhai cynrychiolwyr ysgolion a SABau bod hyn yn cael effaith negyddol ar allu y CADY i dreulio amser yn gwneud gwaith strategol, ansawdd CDUau a chyfanswm ac ansawdd yr amser a gaiff ei dreulio gyda dysgwyr eu hunain. Esboniodd rhai cyfranogwyr bod hyn yn bryder arbennig i CADYau sydd â chyfrifoldebau addysgu ychwanegol neu gyfrifoldebau fel uwch arweinwyr. Nododd nifer o gynrychiolwyr awdurdodau lleol, ysgolion a SABau bod CADYau yn teimlo bod y tasgau gweinyddol sy'n rhan o'u rôl yn feichus ac yn eu llethu, ac esboniodd sawl CADY eu bod yn aml yn gweithio gyda'r hwyr ac ar benwythnosau er mwyn cwblhau'r tasgau y mae gofyn iddynt eu cwblhau. O ganlyniad, mynegwyd pryder gan rai o'r cyfranogwyr hyn ynghylch lles a chydbwysedd bywyd a gwaith CADYau.

Nododd rhai cyfranogwyr bod trosiant uchel o ran y rhai sy'n cyflawni rôl y CADY. Er enghraifft, cyfeiriodd cynrychiolwyr awdurdodau lleol a SABau at achosion lle'r oedd y llwyth gwaith uchel a'r diffyg cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith wedi cymell CADYau i ymddeol, a bod cyflogwyr wedi cael anhawster wrth benodi rhywun newydd i'r rôl.

Esboniodd cynrychiolwyr awdurdodau lleol, SABau ac ysgolion bod rhai ysgolion a SABau wedi gweithredu rolau yn ychwanegol i rôl y CADY statudol, megis 'CADY cynorthwyl' neu 'CADY cysgodol', ac roedd ysgolion eraill wedi rhannu rôl y CADY. Esboniodd rhai ysgolion bod gweithredu rôl CADY ychwanegol wedi helpu i reoli'r llwyth gwaith a chynorthwyo parhad.

Nododd rhai cynrychiolwyr awdurdodau lleol bod cyfarfodydd clwstwr CADY wedi cael eu sefydlu, a'u bod wedi datblygu rhwydweithiau cymheiriaid cadarn ymhlith CADYau. Nododd cynrychiolwyr awdurdodau lleol bod yr hyfforddiant yr oeddent wedi ei ddarparu i CADYau wedi cael ei groesawu, ac adleisiwyd hyn gan CADYau eu hunain. Awgrymodd rhai cynrychiolwyr awdurdodau lleol bod CADYau sydd newydd gychwyn yn y rôl yn addasu'n well i'r system ADY na CADYau sydd wedi bod yn rôl am gyfnod hwy ac yr oeddent yn gyfarwydd â'r system AAA yn flaenorol, gan eu bod yn fwy tebygol o ofyn cwestiynau ynghylch agweddau ar y system sy'n anghyfarwydd iddynt.

SAADY y Blynyddoedd Cynnar

Mynegwyd safbwyntiau cadarnhaol gan gynrychiolwyr awdurdodau lleol ynghylch rôl y SAADY y Blynyddoedd Cynnar. Er enghraifft, nododd rhai cyfranogwyr bod cydweithio da rhwng yr awdurdod lleol, ysgolion a'r SAADY y Blynyddoedd Cynnar. Fodd bynnag, mynegwyd pryder gan gyfranogwyr ynghylch y llwyth gwaith uchel a'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer y rôl. Er enghraifft, esboniodd un awdurdod lleol eu bod wedi datblygu rôl Swyddog Cyswllt ADY BC law yn llaw â'r SAADY y Blynyddoedd Cynnar, er mwyn cynorthwyo gyda phontio a chysylltu gyda lleoliadau a rhieni, o ganlyniad i'r llwyth gwaith uchel.

Roedd gan gynrychiolwyr lleoliadau blynyddoedd cynnar safbwyntiau cadarnhaol am y cymorth a'r cyngor a gawsant gan SAADYau BC. Adroddodd yr holl gynrychiolwyr lleoliadau blynyddoedd cynnar eu bod yn gallu cysylltu â'u SAADY y Blynyddoedd Cynnar yn ôl yr angen. Adroddodd rhai eu bod yn cael cyfarfodydd rheolaidd ynghylch dysgwyr penodol ac adroddodd rhai eu bod yn cael cyswllt â'u SAADY y Blynyddoedd Cynnar bob wythnos, neu'n amlach na hynny.

SACDA

Roedd rhan fwyaf y cyfranogwyr wedi mynegi safbwyntiau cadarnhaol ynghylch rôl y SACDA. Nododd cynrychiolwyr o awdurdodau lleol, SABau a BILlau bod rôl y SACDA yn un sy'n cael ei gwerthfawrogi'n fawr, a'i bod yn hanfodol wrth hwyluso'r berthynas rhwng y BILI a sectorau eraill.

Nododd rhai cynrychiolwyr BILlau bod SACDAau yn gyfrifol am godi ymwybyddiaeth o'r Cod ADY ac am ddarparu hyfforddiant sy'n ymwneud â'r system ADY o fewn eu BILI. Er enghraifft, esboniodd rhai cynrychiolwyr BILlau bod eu SACDA wedi creu fideos sy'n cynnig canllawiau byr am agweddau ar y system ADY, a bod hyn wedi bod o gymorth iddynt.

Mynegwyd pryder gan nifer o gynrychiolwyr awdurdodau lleol a BILlau bod cylch gwaith rôl y SACDA yn rhy fawr i un person. Er enghraifft, nododd cynrychiolwyr mewn BILlau ac awdurdodau lleol ei bod yn afrealistig i'r SACDA fod yn gallu delio â'r holl leoliadau ar draws awdurdodau lleol lluosog.

Cydweithio a rhannu gwybodaeth

Mae'r adran hon yn amlinellu canfyddiadau'r gwaith ymchwil mewn perthynas â chydweithio a rhannu gwybodaeth ers gweithredu'r system ADY. Holwyd cyfranogwyr yn y gwaith ymchwil am eu barn ynghylch a oedd y cydweithio rhwng gweithwyr proffesiynol a sectorau wedi gwella ers gweithredu'r diwygiadau ADY.

Cydweithio gydag awdurdodau lleol

Mynegwyd safbwyntiau cymysg gan gyfranogwyr ar draws gwahanol sectorau ynghylch eu perthynas gydag awdurdodau lleol. Yn gyffredinol, roedd cynrychiolwyr ysgolion yn teimlo bod ganddynt berthynas dda gyda'u hawdurdod lleol, a briodolwyd i lefel dda y cymorth yr oeddent yn ei chael (e.e. cyngor, dysgu proffesiynol). Er enghraifft, nododd un cynrychiolydd ysgol bod eu hawdurdod lleol wedi darparu sesiwn ar-lein lle'r oeddent yn mynd trwy bob pennod o'r Cod ADY.

Esboniodd cynrychiolwyr BILiau bod eu perthynas gydag awdurdodau lleol yn dda yn gyffredinol, a'i bod wedi gwella o ganlyniad i rôl y SACDA. Fodd bynnag, nododd cynrychiolwyr hefyd bod diffyg cysondeb o ran y dulliau gweithredu ar draws awdurdodau lleol (e.e. gwahanol strwythurau gweithlu neu adrannol, gwahanol drefniadau ar gyfer rhannu gwybodaeth), yn achosi anawsterau wrth gynnal cyfathrebu gyda'r holl awdurdodau lleol. Adleisiwyd y gwahaniaeth hwn o ran perthnasoedd ar draws awdurdodau lleol gan gynrychiolwyr SABau, a nododd bod ganddynt berthynas waith dda gyda rhai awdurdodau lleol, ond nid gyda phob un.

Cydweithio gydag ysgolion/leoliadau Blynyddoedd Cynnar – addysg

Mynegwyd safbwyntiau cadarnhaol gan gynrychiolwyr awdurdodau lleol ynghylch eu perthynas gyda lleoliadau blynyddoedd cynnar. Priodolwyd y perthnasoedd cadarnhaol hyn i effeithiolrwydd fforymau neu baneli blynyddoedd cynnar a chysylltiadau da gydag ymwelwyr iechyd, sydd wedi helpu i gynorthwyo wrth adnabod ADY yn gynnar. Roedd cynrychiolwyr awdurdodau lleol yn gwerthfawrogi rôl y SAADY y Blynyddoedd Cynnar, yn enwedig wrth ddarparu cymorth ar gyfer y pontio o'r blynyddoedd cynnar i leoliadau ysgol.

Disgrifiodd cynrychiolwyr lleoliadau blynyddoedd cynnar enghreifftiau o gydweithio yn gwella rhyngddynt a'u hawdurdod lleol. Roedd enghreifftiau yn cynnwys 'clinigau' ADY rheolaidd lle'r oedd ymarferwyr lleoliadau blynyddoedd cynnar yn gallu cyfarfod gyda'u SAADY y Blynyddoedd Cynnar i geisio eu cyngor, yn ogystal â'r ffaith eu bod yn gallu cysylltu â'u SAADY y Blynyddoedd Cynnar yn uniongyrchol gydag ymholiadau. Adroddodd rhai cynrychiolwyr lleoliadau blynyddoedd cynnar bod y cydweithio yn gwella rhwng lleoliadau trwy gyfrwng cyfarfodydd rhwydwaith a drefnir gan eu hawdurdod lleol, yr oedden nhw a chynrychiolwyr eraill lleoliadau blynyddoedd cynnar yn eu gwerthfawrogi. Fodd bynnag, adroddodd rhai cynrychiolwyr lleoliadau blynyddoedd cynnar nad oedd cyfarfodydd rhwydwaith lleol o'r fath yn cael eu cynnal. Roedd y cynrychiolwyr hyn o leoliadau blynyddoedd cynnar yn teimlo y byddai'r mathau hyn o gyfleoedd o fudd er mwyn trafod ymarfer sy'n gysylltiedig ag ADY, yn ogystal ag unrhyw faterion yr oeddent yn eu hwynebu.

Amlinellodd cynrychiolwyr ysgolion y berthynas dda sydd ganddynt gydag ysgolion eraill, yn enwedig y rhai yn eu clwstr. Nodont bod cydweithio wedi gwella a bod digon o gyfleoedd i

rwydweithio gydag ysgolion eraill a rhannu profiadau ac arfer da (e.e. trwy gyfrwng cyfarfodydd clwstwr CADY).

I'r gwrthwyneb, roedd cynrychiolwyr BILlau wedi mynegi safbwyntiau mwy cymysg ynghylch eu perthynas gyda lleoliadau addysg. Roedd rhwystrau a oedd yn atal cydweithio effeithiol yn cynnwys materion a oedd yn ymwneud ag amseriad cyfarfodydd, diffyg capasiti er mwyn galluogi cynrychiolwyr BILlau i allu mynychu cyfarfodydd, gwahanol ddealltwriaeth o atgyfeiriadau Adran 20 a gwahanol ddehongliadau o DDdY.^[Troednodyn 5]

Bu cynrychiolwyr BILlau yn myfyrio am y gwahaniaeth o ran hyd yr amser y mae gofyn i weithwyr proffesiynol BILl ymateb i geisiadau adran 65 gan awdurdodau lleol, o'i gymharu â hyd yr amser lle y mae gofyn i ysgolion baratoi CDU ar ôl cael mewnbwn gan weithwyr iechyd proffesiynol.^[Troednodyn 6] Esboniodd cynrychiolwyr BILlau y gallai awdurdodau lleol wneud ceisiadau adran 65 i BILl, cael ymatebion o fewn y terfyn amser o chwech wythnos ac ystyried ymateb y BILl wrth baratoi CDU yr awdurdod lleol cyn pen 12 wythnos. Roedd cynrychiolwyr BILlau yn cyferbynnu hyn gydag ysgolion, sy'n gorfod paratoi CDUau cyn pen 35 diwrnod, ac nad oes yn rhaid i BILlau ymateb iddynt o fewn amserlen statudol. Nododd cynrychiolwyr BILlau bod hyn yn creu heriau i ysgolion sy'n dymuno cael mewnbwn gweithwyr iechyd proffesiynol wrth baratoi CDU ysgol, ond y maent yn ddibynnol ar gapasiti gweithwyr proffesiynol BILlau a threfniadau lleol.

Adroddodd cynrychiolwyr BILlau bod camddealltwriaeth rhwng gweithwyr iechyd proffesiynol ac ymarferwyr ysgol, sy'n rhwystr sy'n atal cydweithio rhyngddynt. Er enghraifft, roedd cynrychiolwyr BILlau yn teimlo bod ganddynt wahanol ddehongliad o'r diffiniad o DDdY i ysgolion, a bod diffyg dealltwriaeth ymhlith ymarferwyr ysgolion ynghylch y dyletswyddau sy'n ymwneud ag atgyfeiriadau adran 20. Esboniodd cynrychiolwyr BILlau, gan mai dim ond awdurdodau lleol sy'n gallu gwneud y ceisiadau statudol, bod gweithwyr iechyd proffesiynol yn llenwi adran 2c yn unig ar gyfer CDUau a gynhelir gan awdurdodau lleol. Fodd bynnag, nododd cynrychiolwyr BILlau bod rhai ymarferwyr ysgol wedi gofyn iddynt pam nad oedd y BILl wedi llenwi adran 2c ar gyfer CDUau a gynhelir gan ysgol. Roedd cynrychiolwyr BILlau yn credu y byddai modd i ysgolion ystyried yr enghreifftiau hyn o gamddealltwriaeth fel diffyg ymgysylltu gan gynrychiolwyr BILlau.

Roedd cynrychiolwyr BILlau yn cydnabod nad oes ganddynt y capasiti i'w galluogi i fynychu cyfarfodydd ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ond nodont hefyd y gallai fod yn effeithiol mynychu pan fyddant yn gallu gwneud hynny. Bu cynrychiolwyr BILlau yn myfyrio

⁵[5] Os oes gan blentyn neu berson ifanc mewn ysgol prif ffrwd neu goleg ADY, ac anghenion sy'n gysylltiedig ag iechyd o bosibl, gall awdurdod lleol neu SAB os ydynt dros 16 oed ofyn i'r BILl neu'r ymddiriedolaeth GIG, a oes: 'unrhyw driniaeth neu wasanaeth sy'n debygol o fod o fudd wrth roi sylw i ADY plentyn neu berson ifanc.' (Adran 20 Deddf ADY). Os bydd y BILl yn adnabod triniaeth neu wasanaeth sy'n briodol ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc, rhaid iddo ddisgrifio'r driniaeth neu'r gwasanaeth yn CDU y plentyn ac os bydd y BILl yn adnabod 'triniaeth neu wasanaeth' a fyddai o fudd i'r plentyn neu'r person ifanc, rhaid iddo ei ddarparu. (Adran 20(5) ac Adran 21(5) y Ddeddf).

⁶[6] Mae Deddf ADY (adran 65) yn darparu, pan fydd awdurdod lleol yn gofyn am help neu wybodaeth gan gyrff eraill, gan gynnwys awdurdod lleol arall, corff GIG neu SAB (ymhlith eraill), wrth gyflawni unrhyw rai o'u swyddogaethau ADY, rhaid i'r corff hwnnw gydymffurfio â'r cais.

am y ffaith yr hoffent gael mwy o rybudd gan ysgolion i fynychu cyfarfodydd ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn/adolygu.

Cydweithio gyda SABau

Yn gyffredinol, roedd cynrychiolwyr ysgolion ac awdurdodau lleol a gyfwelwyd yn barnu bod ganddynt berthynas dda gyda'u SAB lleol. Nododd cynrychiolwyr awdurdodau lleol bod perthnasoedd gyda SABau wedi cael eu gwella gan grwpiau llywio ôl-16, fforymau ADY a rôl cydlynwyr ôl-16 mewn rhai ardaloedd. Fodd bynnag, er gwaethaf gwelliannau yn y perthnasoedd gyda SABau, roedd cynrychiolwyr awdurdodau lleol yn cydnabod bod rhywfaint o ddiffyg eglurder ynghylch y protocolau ar gyfer ysgolion a SABau mewn perthynas â phontio ôl-16. Mewn rhai achosion, mae awdurdodau lleol yn rhoi sylw i hyn trwy ddiwygio canllawiau i ysgolion, er mwyn cynnwys gwybodaeth ynghylch sut y dylai ysgolion baratoi ar gyfer y cyfnod pan fydd eu dysgwyr yn pontio i AB.

Cydweithio gyda gweithwyr iechyd proffesiynol

Mynegwyd safbwyntiau cymysg gan gyfranogwyr ym mhob sector ynghylch eu perthynas gyda gweithwyr iechyd proffesiynol. Yn gyffredinol, roedd cynrychiolwyr o awdurdodau lleol yn teimlo bod ganddynt berthynas dda gyda gweithwyr iechyd proffesiynol a bod rôl y SACDA wedi eu helpu i wella'r cysylltiadau hyn. Fodd bynnag, nododd cynrychiolwyr awdurdodau lleol y gallai camosodiad amserlenni rhwng BILlau ac awdurdodau lleol fod yn rhwystr i gyswllt gweithwyr iechyd proffesiynol gyda chyfarfodydd ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Adroddodd cynrychiolwyr ysgolion safbwyntiau cymysg mewn perthynas â'u perthnasoedd gyda gweithwyr iechyd proffesiynol. Mewn rhai achosion, disgrifiodd cynrychiolwyr ysgolion bod ganddynt berthnasoedd gwaith effeithiol gyda gweithwyr iechyd penodol, megis meddygon ymgynghorol, CAMHS, seicolegwyr addysg a Therapyddion Iaith a Lleferydd (ThILI). Fodd bynnag, esboniodd cynrychiolwyr ysgolion eu bod yn teimlo nad yw gweithwyr iechyd proffesiynol wastad yn mynychu cyfarfodydd neu nad yw'r mewnbwn meddygol i'r broses gynllunio ac adolygu wastad yn amserol. Roedd cynrychiolwyr ysgolion yn ystyried bod yr anghysondebau hyn o ran cyswllt gweithwyr iechyd proffesiynol yn her wrth geisio meithrin perthnasoedd da gyda chynrychiolwyr BILI. Roedd her arall a nodwyd gan gynrychiolwyr ysgolion yn ymwneud â mecanweithiau atgyfeirio. Roedd cynrychiolwyr ysgolion yn tybio bod natur y sefyllfa lle y mae ymarferwyr ysgol yn gorfod defnyddio mewnlwch cyffredinol er mwyn cyfathrebu â gweithwyr iechyd proffesiynol, yn aneffeithlon, ac roeddent yn teimlo y byddai'n fwy effeithlon pe bai modd iddynt gysylltu â'r gweithwyr iechyd proffesiynol yn uniongyrchol.

Yn gyffredinol, roedd cynrychiolwyr SABau yn teimlo eu bod wedi meithrin perthnasoedd da gyda gweithwyr iechyd proffesiynol a bod cyfarfodydd rheolaidd gyda'r SACDA yn ddefnyddiol. Mynegwyd safbwynt tebyg gan gynrychiolwyr BILlau, a nododd bod rôl y

SACDA wedi bod o fudd wrth gynorthwyo perthnasoedd rhwng cynrychiolwyr BILlau a SABau.

Mynegwyd safbwyntiau cymysg gan gynrychiolwyr lleoliadau blynyddoedd cynnar ynghylch y cydweithio rhyngddynt a gweithwyr iechedd proffesiynol. Roedd rhai yn disgrifio perthnasoedd gwaith effeithiol gydag ymwelwyr iechedd wrth adnabod ADY posibl ymhlith plant cyn cofrestru yn eu lleoliad, a oedd wedi eu helpu i baratoi staffio a threfniadau eraill, ac roedd eraill yn teimlo nad oedd ADY rhai plant wedi cael ei adnabod mor gynnar ag y gallai fod wedi cael ei nodi.

Systemau ar-lein: systemau rhannu data

Pwysleisiodd cyfranogwyr yn y gwaith ymchwil bwysigrwydd systemau ar-lein ar gyfer gweithgarwch rhannu data effeithlon ac effeithiol rhwng sectorau ac o fewn sectorau. Nododd rhan fwyaf y cyfranogwyr a gyfwelwyd bod systemau ar-lein yn bodoli, yn enwedig ar gyfer rhannu data o fewn sectorau, ac mewn nifer o achosion, ar gyfer rhannu data rhwng sectorau hefyd. Mewn rhai achosion, teimlwyd lle y mae systemau ar-lein yn cael eu defnyddio i rannu data rhwng sectorau, bod y systemau hyn yn helpu i egluro rolau a gwella ansawdd CDUau. Ymhellach, esboniodd cynrychiolwyr BILlau bod systemau ar-lein yn cynorthwyo llif gwybodaeth, gan sicrhau bod y tîm cywir yn ymateb i geisiadau a chan alluogi rheolwyr i fonitro mewnbyn i CDUau.

Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o sectorau yn cydnabod materion neu gyfyngiadau gyda systemau ar-lein presennol, megis materion wrth rannu neu drosglwyddo gwybodaeth trwy systemau ar-lein, anhyblygrwydd systemau a phroblemau wrth gael mynediad i systemau. Er enghraifft, er bod rhai cynrychiolwyr ysgolion a BILlau wedi esbonio bod rhieni yn gallu troi at rai systemau ar-lein, nodont y gallai diffyg llythrennedd digidol fod yn rhwystr a allai atal mynediad. Hefyd, o ran materion yn ymwneud â mynediad, esboniodd cynrychiolwyr BILlau nad yw pob gweithiwr iechedd proffesiynol yn cael mynediad i systemau ar-lein a ddefnyddir gan eu BIL i gofnodi ceisiadau adran 65 ac adran 20, a'u dosbarthu i'r adran berthnasol.

Pontio

Esboniodd cynrychiolwyr lleoliadau blynyddoedd cynnar bod anghysondebau o ran swm y wybodaeth y maent yn ei chael am ddysgwyr sydd ag ADY, neu y gallai fod ganddynt ADY, cyn iddynt gofrestru yn eu lleoliad. Dywedodd cynrychiolwyr lleoliadau blynyddoedd cynnar eu bod yn cael gwybodaeth am anghenion dysgwr cyn iddynt gofrestru o bryd i'w gilydd, naill au trwy ymwelydd iechedd, y SAADY y Blynyddoedd Cynnar neu riant/gofalwr. Mewn achosion eraill, gallai anghenion dysgwr gael eu hadnabod ar ôl iddynt gofrestru, yna byddai ymarferwyr yn y lleoliad yn trafod hyn gyda rhieni a'u SAADY y Blynyddoedd Cynnar.

Adroddodd cynrychiolwyr lleoliadau blynyddoedd cynnar eu bod yn cydweithio'n agos gydag ymarferwyr ysgolion i gynorthwyo pontio effeithiol i addysg orfodol. Nododd cynrychiolwyr

lleoliadau blynyddoedd cynnar eu bod wedi gofyn i athrawon fynychu eu lleoliad i gyfarfod gyda dysgwyr sydd ag ADY cyn iddynt bontio, neu i fynychu adolygiadau gyda'r SAADY y Blynyddoedd Cynnar, pan fo modd. Nododd cynrychiolwyr lleoliadau blynyddoedd cynnar hefyd eu bod yn ceisio sicrhau bod gweithwyr allweddol dysgwyr sydd ag ADY yn mynychu'r ysgol gyda nhw fel rhan o'r broses bontio.

Nododd cynrychiolwyr ysgolion bod niferoedd cynyddol o blant yn pontio o leoliad blynyddoedd cynnar i'r ysgol, y nodwyd bod ganddynt ADY cyn iddynt bontio. Er bod cynrychiolwyr ysgolion a gyfwelwyd yn teimlo eu bod yn cael rhybudd cynnar am ddysgwyr sydd ag ADY trwy gyfrwng darparwyr blynyddoedd cynnar ar y cyfan, esbonion hefyd y nodwyd bod gan niferoedd cynyddol o ddysgwyr ADY yn union cyn iddynt bontio, felly nid oedd unrhyw CDU wedi bod yn ei le cyn iddynt bontio. Mae hyn yn arwain at sefyllfa lle y mae'n rhaid i'r ysgol gynnal cyfarfod ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac ysgrifennu CDU ar gyfer dysgwr wrth iddynt bontio o leoliad blynyddoedd cynnar i'r ysgol mewn cyfnod byr, heb unrhyw wybodaeth flaenorol am y plentyn.

Adroddodd cynrychiolwyr SABau ac ysgolion uwchradd eu bod yn wynebu heriau mewn perthynas â phontio dysgwyr sydd â CDUau o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd neu o'r ysgol i leoliadau ôl-16. Bu cynrychiolwyr SABau ac ysgolion uwchradd yn myfyrio nad oes ganddynt fynediad i CDUau dysgwyr bob amser cyn iddynt gychwyn yn eu lleoliad. Adroddodd SABau ac ysgolion uwchradd bod anghysondebau yn ansawdd y CDUau y maent yn eu cael ar gyfer dysgwyr sy'n pontio i mewn i'w lleoliad. Ymhellach, esboniodd cynrychiolwyr SABau nad yw cynnwys CDUau wastad yn berthnasol ar gyfer dysgu ôl-16 gan eu bod yn tueddu i adlewyrchu anghenion yn yr ysgol, ac nad ydynt yn ystyried newidiadau o ran annibyniaeth neu aeddfedrwydd dysgwyr yn ystod y cyfnod ôl-16.

Nododd cynrychiolwyr SABau bod cynllunio cynnar yn bwysig er mwyn sicrhau pontio esmwyth o'r ysgol i AB, a phwysleisiodd yr ymarferwyr hyn y ffaith bod cysylltiadau da gydag ysgolion yn hwyluso hyn. Roedd cynrychiolwyr awdurdodau lleol a gyfwelwyd wedi adleisio'r farn hon, trwy amlygu pwysigrwydd darparu cynlluniau pontio ôl-16 mewn ffordd amserol.

Adroddodd cynrychiolwyr ysgolion a SABau eu bod yn gwerthfawrogi cael prosesau adolygu effeithiol yn eu lle yn ystod cyfnodau pontio (rhwng ysgolion; rhwng ysgolion a darpariaeth arbenigol gan gynnwys ysgolion prif ffrwd ac ysgolion arbennig neu unedau cyfeirio disgyblion; neu rhwng ysgolion ac AB). Pwysleisiant y ffaith bod perthnasoedd cadarnhaol rhwng sectorau a chydweithio effeithiol, megis staff SABau yn cael eu gwahodd i gyfarfodydd adolygu ysgol, yn galluogi cynllunio a phontio mwy esmwyth i ddysgwyr ADY. Nodwyd bod cydweithio cadarnhaol gan y cyfranogwyr hyn o gymorth hefyd wrth rannu gwybodaeth, yn ogystal â meithrin perthnasoedd gyda rhieni a dysgwyr. Fodd bynnag, amlygodd cynrychiolwyr SABau nad ydynt wastad yn cael eu gwahodd i gyfarfodydd adolygu ysgol gan mai cyrchfan posibl yn unig yw AB i ddysgwyr ar yr adeg pan gynhelir yr adolygiadau. Nododd cynrychiolwyr SABau bod hyn yn cyfyngu eu mynediad i wybodaeth amserol a fyddai'n cyfrannu at eu gweithgarwch cynllunio ar gyfer dysgwyr ôl-16. Fodd bynnag, nododd rhai ysgolion, er eu bod yn gwneud ymdrechion i ymgysylltu â SABau, a'u gwahodd i gyfarfodydd adolygu, nad ydynt wastad yn mynychu.

Anghytundebau ac apeliadau

Mae'r adran hon yn amlinellu canfyddiadau'r gwaith ymchwil mewn perthynas ag anghytundebau a'r broses apeliadau. Holwyd cyfranogwyr yn y gwaith ymchwil a oeddent yn teimlo bod y system ADY yn llai gwrthwynebol na'r system AAA flaenorol (ni holwyd lleoliadau blynyddoedd cynnar am hyn) a gofynnwyd iddynt fyfyrion am unrhyw dueddiadau sy'n dod i'r amlwg yn eu hardal leol neu yn eu lleoliad ynghylch y rhesymau dros unrhyw anghytundebau ac apeliadau.

Safbwyntiau ynghylch a yw'r system ADY yn llai gwrthwynebol

Adroddodd cyfranogwyr mewn awdurdodau lleol, ysgolion, SABau a BILlau am brofiadau cymysg ynghylch y graddau y mae'r system ADY newydd wedi arwain at ddull llai gwrthwynebol wrth ddatrys anghytundebau. Er bod cynrychiolwyr o rai ardaloedd awdurdodau lleol ac ysgolion wedi nodi gwelliannau trwy gyfrwng trafodaeth gynharach a chydweithio gyda theuluoedd, adroddodd eraill am gynnydd yn nifer yr anghydfodau ffurfiol, yr heriau cyfreithiol a'r apeliadau.

Adroddodd cynrychiolwyr o ddau awdurdod lleol am gynnydd trawiadol yn nifer yr apeliadau a'ch achosion tribiwnlys yn eu hardaloedd nhw ers y diwygiadau. Adroddont hefyd am gynnydd yn nifer y rhieni sy'n defnyddio cynrychiolaeth gyfreithiol i herio penderfyniadau yn y ddwy ardal hon. Disgrifiwyd yr achosion hyn fel rhai sy'n cymryd cryn amser ac adnoddau, a dywedwyd eu bod yn tynnu staff i ffwrdd o wneud gwaith parhaus gyda theuluoedd ac ysgolion. Ar draws ardaloedd y chwech awdurdod lleol, mynegwyd pryderon bod cynnydd yn nifer y ceisiadau i awdurdodau lleol adolygu neu ailystyried penderfyniadau, neu i ymgymryd â'r cyfrifoldeb dros CDUau. Dywedwyd bod hyn yn rhoi pwysau cynyddol ar adnoddau, a bod gofyn neilltuo mwy o amser i gynnal trafodaethau gyda rhieni a phartneriaid BILlau, sy'n gallu arwain at oedi.

Adroddodd cynrychiolwyr ysgolion a lleoliadau am amrediad o brofiadau mewn perthynas ag anghytundebau hefyd. Nododd cynrychiolwyr mewn rhai lleoliadau nad oeddent wedi cael unrhyw anghydfodau ffurfiol, a bod anghytundebau wedi cael eu datrys trwy gael trafodaethau anffurfiol gyda rhieni. Fodd bynnag, roedd eraill wedi disgrifio cael cyswllt gydag apeliadau, gan amlygu'r faich emosiynol sylweddol a'r faich o ran amser yr oeddent wedi'i phrofi. Roedd rhai cynrychiolwyr o leoliadau ar draws y chwe awdurdod lleol yn tybio bod y diwygiadau a chyflwyno CDUau wedi codi disgwyliadau rhieni am yr hyn y gellir ei ddarparu i ddysgwyr, a bod hyn yn ei dro wedi cyfrannu at gynnydd yn nifer yr apeliadau a'r heriau cyfreithiol.

Yn ogystal, adroddodd rhai cynrychiolwyr BILlau eu bod yn cael mwy o gyswllt gydag anghydfodau ac apeliadau, yn enwedig wrth ymateb i a darparu tystiolaeth wrth ymateb i adroddiadau gan ddarparwyr gofal iechyd preifat, a gyflwynir fel rhan o achosion tribiwnlys. Roedd cynrychiolwyr BILlau yn ystyried bod hyn yn her sylweddol, gyda phryderon yn cael eu codi am yr amser sy'n ofynnol er mwyn cyfrannu, weithiau heb gael unrhyw gyswllt blaenorol gyda'r dysgwr, neu heb feddu ar unrhyw wybodaeth flaenorol amdanynt. Unwaith eto, mynegwyd pryderon ynghylch yr effaith y gallai hyn ei chael ar gapasiti gweithwyr iechyd proffesiynol. Fodd bynnag, dywedodd nifer o gynrychiolwyr BILlau a gyfwelwyd ei

bod yn rhy gynnar i asesu a yw'r system yn llai gwrthwynebol gan nad oeddent wedi cael cyswllt ag apelïadau eto, neu dim ond mewn nifer fach iawn o achosion. Roedd ansicrwydd o hyd ynghylch faint o brofiad o'r broses apelïadau yr oeddent yn debygol o'i gael yn y dyfodol.

Er gwaethaf yr heriau a godwyd, gwelwyd sawl enghraifft o ddulliau mwy cydweithredol ar draws sectorau. Adroddwyd bod y defnydd o ddulliau ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn arbennig yn cynorthwyo deialog gynharach, gan helpu rhieni i ymgysylltu a chan leihau tebygolrwydd apelïadau o bosibl. Disgrifiodd cynrychiolwyr ysgolion eu bod yn cydweithio'n agos gyda theuluoedd i esbonio'r system a rheoli disgwylïadau, er y cydnabuwyd bod hyn yn cymryd amser ac nad yw wastad yn llwyddiannus.

Tueddiadau a rhesymau dros anghytundebau

Nododd cyfranogwyr ar draws sectorau nifer o dueddiadau sy'n dod i'r amlwg, ynghyd ag achosion sylfaenol anghytundeb o fewn y system ADY newydd. Roedd y rhain yn cynnwys gwahanol ddehongliadau o DDdY, disgwylïadau rhieni yn codi, a'r defnydd cynyddol o gynrychiolaeth gyfreithiol.

Nododd cynrychiolwyr awdurdodau lleol bod anghydfodau yn aml yn canolbwyntio ar benderfyniadau ynghylch math neu lefel y DDdY i'w darparu, neu ar benderfyniadau i beidio gosod dysgwyr mewn darpariaeth arbenigol. Adroddwyd hefyd am ddefnyddio adroddiadau iechyd preifat i herio penderfyniadau awdurdodau lleol. Disgrifiodd cynrychiolwyr awdurdodau lleol ddiffyg eglurder ynghylch y defnydd o offerynnau penodol, a'u statws, megis proffiliau un-tudalen, a oedd wedi arwain at ddryswch ac ansicrwydd ymhlith ysgolion a theuluoedd, a allai arwain at fwy o anghytundebau.

Cyfeiriodd cynrychiolwyr ysgolion at amrediad o resymau dros anghytundebau, yr oeddent yn cysylltu nifer ohonynt gyda disgwylïadau sy'n codi ymhlith rhieni. Roedd enghreifftiau yn cynnwys rhieni yn anfodlon gyda'r lleoliad a'r DDdY o'r cychwyn gan eu bod yn anghytuno bod y lleoliad yn addas i'w plentyn. Roedd materion eraill yn cynnwys anghydfodau ynghylch y geiriad a lefel y manylder yn y CDU, neu anghytundeb â'r penderfyniad i symud dysgwr o ddatganiad AAA blaenorol i ddarpariaeth gyffredinol. Roedd tybiaeth ymhlith rhai cynrychiolwyr ysgolion y gallai'r ofn o gyrraedd tribiwnlys arwain at ysgolion yn cytuno i CDUau hyd yn oed pan nad oes eu hangen efallai, er mwyn osgoi anghytundeb ffurfiol. Cyfeiriodd rhai hefyd at gamdybiaeth gyffredin ymhlith rhieni bod cael CDU yn gwarantu cyllid ychwanegol neu gymorth un-i-un, a allai gyfrannu at anghytundeb ymhellach. Disgrifiwyd y broses gan gynrychiolwyr un ysgol a oedd wedi cael profiad o achos tribiwnlys a oedd wedi cynnwys cyfreithwyr, fel un arbennig o wrthwynebol, gyda staff yn teimlo dan bwysau sylweddol trwy gydol y broses.

Nododd cynrychiolwyr BILlau heriau hefyd, yn enwedig pan ofynnwyd iddynt ymateb i adroddiadau preifat a gyflwynwyd fel rhan o achosion tribiwnlys. Mynegwyd pryder gan rai am yr amser sy'n ofynnol er mwyn cyfrannu at brosesau cyfreithiol, a oedd yn tynnu sylw oddi ar waith clinigol. Awgrymodd nifer fach o gynrychiolwyr na ddylai fod modd apelio i dribiwnlys yn erbyn adrannau penodol o'r CDU, o ystyried y goblygiadau ar gyfer capasiti y gwasanaeth iechyd, ac roedd eraill wedi amlygu diffyg eglurder ynghylch rôl BILlau yn y

broes apeliadau, o ganlyniad i nifer gyfyngedig yr achosion tribiwnlys a gynhaliwyd hyd yn hyn, sy'n gallu cynnig arweiniad.

System ddwyieithog

Mae'r adran hon yn amlinellu canfyddiadau'r gwaith ymchwil mewn perthynas â chapasiti a darpariaeth ddwyieithog. Holwyd barn cyfranogwyr yn y gwaith ymchwil am y cynnydd yr oeddent wedi'i sicrhau wrth weithredu system ADY ddwyieithog (ni holwyd cynrychiolwyr lleoliadau blynyddoedd cynnar am hyn).

Darpariaeth a chapasiti dwyieithog

Mae'n ddealladwy bod y profiadau a'r safbwyntiau a rannwyd gan ysgolion a lleoliadau ynghylch darpariaeth ddwyieithog wedi cael eu siapio gan y cwestiwn a oeddent yn gweithio mewn lleoliad cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog, a hefyd gan y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

Adroddodd rhan fwyaf y lleoliadau ac ysgolion cyfrwng Cymraeg sy'n gwasanaethu ardaloedd sy'n cynnwys niferoedd mawr o deuluoedd sy'n siarad Cymraeg (gan gynnwys ysgolion arbennig) eu bod yn meddu ar gapasiti digonol er mwyn gallu cyflwyno DDdY yn Gymraeg, a'u bod yn gallu diwallu anghenion dysgwyr y mae gofyn iddynt gael cymorth yn Gymraeg neu'n ddwyieithog yn gyffredinol. Soniodd ysgolion cyfrwng Cymraeg, fodd bynnag, am yr heriau y maent wedi eu hwynebu. Adroddodd cynrychiolwyr dwy ysgol am enghreifftiau o ddysgwyr a oedd wedi trosglwyddo o addysg cyfrwng Cymraeg i addysg cyfrwng Saesneg er mwyn manteisio ar gymorth ar gyfer awtistiaeth. Nododd ysgolion cyfrwng Cymraeg hefyd bod llai o adnoddau ar gael yn y Gymraeg i gynorthwyo'r ddarpariaeth mewn rhai meysydd, yn enwedig adnoddau er mwyn cynorthwyo ymyriadau darllen a llythrennedd ac adnoddau ar gyfer dysgwyr sydd â dyslecsia. Nododd yr ysgolion hyn bod adnoddau sy'n cael eu defnyddio i gynorthwyo DDdY cyfrwng Cymraeg yn aml wedi dyddio. Awgrymodd un ysgol uwchradd, er enghraifft, bod angen cael prawf darllen diagnostig Cymraeg y mae modd ei ddefnyddio ar gyfer dysgwyr ym Mlynnyddoedd 7-9. Cyfeiriodd ysgolion at brinder therapyddion iaith a lleferydd sy'n siarad Cymraeg hefyd. Adroddodd ysgol arbennig mewn ardal lle y gwelir canran uchel o siaradwyr Cymraeg eu bod yn ei chael hi'n anodd recriwtio staff sy'n meddu ar sgiliau Cymraeg.

Nododd ysgolion cyfrwng Saesneg nad yw'r cwestiwn ynghylch DDdY dwyieithog yn fater iddyn nhw gan nad oeddent wedi cael ceisiadau am ddarpariaeth o'r fath. Mewn nifer fach o achosion unigol, nododd ysgol arbennig ac UCD nad ydynt mewn sefyllfa i gynnig darpariaeth ddwyieithog (mae hyn mewn cyferbyniad â'r sefyllfa mewn ysgolion a lleoliadau sy'n gwasanaethu cymunedau sy'n rhai mwy dwyieithog naturiol, lle y darparir darpariaeth cyfrwng Cymraeg). Nododd ysgol arbennig mewn ardal lle y gwelir Saesneg yn cael ei siarad yn bennaf eu bod yn cynorthwyo darpariaeth awtistiaeth mewn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg, gan ddarparu capasiti arbenigol yn yr ysgol honno ac mewn ysgolion prif ffrwd eraill.

Cyfeiriodd sefydliadau addysg bellach at y ffaith nad oeddent wedi cael unrhyw geisiadau gan ddysgwyr am DDdY trwy gyfrwng y Gymraeg. Adroddodd cynrychiolwyr AB mewn tair o'r chwech ardal bod ganddynt staff academiaidd a staff cymorth sy'n meddu ar y sgiliau Cymraeg er mwyn gallu cynnig cymorth i ddysgwyr sydd ag ADY pe bai'r angen yn codi. Cyfeiriodd SABau mewn ardaloedd eraill at yr heriau yr oeddent wedi dod ar eu traws wrth geisio recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg, yn enwedig staff cymorth.

Bu cynrychiolwyr awdurdodau lleol yn myfyrio am eu hymdrechion i sicrhau bod capasiti dwyieithog digonol o fewn eu timau er mwyn gallu ymateb i anghenion dysgwyr. Roedd hyn yn cynnwys gwneud trefniadau er mwyn sicrhau swyddi arbenigol newydd a hysbysebir yn cael eu hadnabod fel rhai lle y mae'r 'Gymraeg yn hanfodol'. Mewn rhai awdurdodau lleol, nododd cynrychiolwyr bod niferoedd cyfyngedig y staff sy'n gallu siarad Cymraeg mewn swyddi allweddol yn eu gadael mewn sefyllfa agored i niwed a'u bod mewn perygl o fethu cyflawni dyletswyddau statudol pe bai aelodau o staff sy'n siarad Cymraeg yn symud ymlaen neu pe bai cyfnod estynedig o absenoldeb. Adroddodd nifer o gynrychiolwyr awdurdodau lleol am brinder seicolegwyr addysg sy'n meddu ar sgiliau Cymraeg.

Amlinellodd cynrychiolwyr BILlau eu capasiti i ymateb i geisiadau am wasanaethau a darpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg. Nododd cynrychiolwyr BILlau y cyfrifoldebau sydd arnynt i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg dan ddeddfwriaeth, ac esbonion eu bod wedi datblygu darpariaeth i fodloni'r dyletswyddau hyn. Er hyn, codwyd cwestiynau gan gynrychiolwyr BILlau am degwch y ddarpariaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg – yn enwedig mynediad i adnoddau. Er enghraifft, nid oes fersiwn Gymraeg gyfatebol o asesiad Gwerthusiad Clinigol o Hanfodion Iaith (CELF), a ddefnyddir i asesu datblygiad iaith a chyfathrebu plentyn. Yn ogystal, gan adleisio pwyntiau a godwyd gan gynrychiolwyr ysgolion, nododd byrddau iechyd lleol ei bod yn gallu bod yn anodd recriwtio therapyddion iaith a lleferydd sy'n meddu ar sgiliau Cymraeg.

Ffactorau system ehangach

Mae'r adran hon yn amlinellu canfyddiadau'r gwaith ymchwil mewn perthynas â ffactorau system ehangach, a oedd yn cynnwys:

- a oes costau ychwanegol ynghlwm â gweithredu'r system ADY
- a yw prosesau cyllido yn dryloyw (dim ond cynrychiolwyr ysgolion ac awdurdodau lleol a holwyd am hyn)
- anghenion dysgu proffesiynol a datblygu'r gweithlu
- aliniad y diwygiadau ADY gyda strategaethau addysg ac iechyd eraill
- newidiadau o ran niferoedd y dysgwyr sydd ag ADY/AAA (dim ond cynrychiolwyr ysgolion ac awdurdodau lleol a holwyd am hyn)

Costau sydd ynghlwm â gweithredu'r system ADY

Ar draws pob sector, adroddodd rhan fwyaf y rhai a gyfwelwyd bod costau ychwanegol ynghlwm â gweithredu'r system ADY. Cyfeiriodd cynrychiolwyr awdurdodau lleol at gostau penodi staff i weinyddu prosesau sy'n ymwneud â CDUau, yn ogystal â rolau newydd (e.e. swyddogion blynyddoedd cynnar, ôl-16 neu blant sy'n derbyn gofal). Cyfeiriodd cynrychiolwyr awdurdodau lleol at gostau sefydlu systemau newydd hefyd (e.e. systemau CDU ar-lein) a chostau hyfforddi staff i ddefnyddio'r systemau hyn. Adroddodd rhai cynrychiolwyr awdurdodau lleol eu bod wedi manteisio ar grantiau ADY a oedd wedi cynorthwyo gweithredu, ond roeddent yn bryderus am gynaliadwyedd y cyllid hwn.

Cyfeiriodd ysgolion at y costau ychwanegol o benodi staff i rolau newydd er mwyn cynorthwyo prosesau cynllunio a/neu er mwyn galluogi'r ysgol i ryddhau eu CADY i gyflawni gweithgareddau sy'n ymwneud â gweinyddu CDUau (e.e. mynychu cyfarfodydd ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ysgrifennu CDUau). Cyfeiriodd rhai at ostyngiadau yn nifer y GCDau, ynghyd â nifer gynyddol o ddysgwyr sydd ag anghenion mwy cymhleth, gyda'r costau uwch cysylltiedig i ddiwallu'r anghenion hyn. Roedd pob ysgol yn barnu bod pwysau ariannol cynyddol ar ysgolion yn gyffredinol.

Roedd cynrychiolwyr lleoliadau blynyddoedd cynnar yn teimlo bod costau ychwanegol ynghlwm â gweithredu'r system ADY, yr oeddent yn ymwneud â'r amser ychwanegol y bydd staff yn ei dreulio ar brosesau gweinyddol sy'n ymwneud â chynllunio a monitro cynnydd yn erbyn targedau CDU yn gyffredinol.

Cyfeiriodd rhan fwyaf y cynrychiolwyr SABau at enghreifftiau o gostau uwch sydd ynghlwm â gweithredu'r diwygiadau. Roedd y costau hyn yn ymwneud â phenodi staff newydd (e.e. swyddogion CDU, rheolwyr ADY neu CADYau cynorthwyol) i gyflawni tasgau gweinyddol sy'n ymwneud â chynllunio a CDUau. Adroddodd rhai cynrychiolwyr SABau eu bod yn cael cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru a nodont nad oedd y cyllid hwn yn ddigonol i dalu'r costau ychwanegol.

Cyfeiriodd cynrychiolwyr BILlau at gostau penodi SACDAu a chymorth gweinyddol, yn ogystal â chostau gweithwyr BIL proffesiynol yn mynychu hyfforddiant sy'n ymwneud â'r system ADY. Roedd rhai staff BILlau yn teimlo bod costau gweinyddol ychwanegol ynghlwm â'r amser y mae'n ei gymryd i brosesu atgyfeiriadau Adran 20, er bod rhai wedi dweud hefyd y gallai'r prosesau hyn leihau dyblygu gydag amser o bosibl.

Tryloywder prosesau ariannu

Mynegwyd safbwyntiau cymysg ymhlith awdurdodau lleol ac ysgolion ynghylch tryloywder prosesau ariannu. Roedd rhai cynrychiolwyr awdurdodau lleol yn teimlo bod mecanweithiau ariannu yn aneglur, ac roedd eraill yn teimlo eu bod wedi dod yn fwy tryloyw. Roedd rhai awdurdodau lleol yn mynd trwy'r broses o newid eu fformiwlâu ariannu er mwyn ceisio gwella tryloywder. Roedd safbwyntiau cynrychiolwyr ysgolion yn gymysg yn yr un modd. Roedd rhai yn teimlo bod cyllid yn cael ei neilltuo mewn ffordd dryloyw ac nid oedd eraill yn glir ynghylch sut y caiff cyllid ei neilltuo ar gyfer ADY ac roedd rhai yn teimlo y dylai eu hawdurdod lleol ddirprwyo mwy o gyllid ADY i ysgolion.

Datblygu'r gweithlu ac anghenion dysgu proffesiynol

Cyfeiriodd pob awdurdod lleol at ddysgu proffesiynol y maent wedi'i weithredu ar gyfer eu swyddogion a'u hysgolion, ond roeddent hefyd yn pwysleisio'r angen am weithgarwch parhaus i ddatblygu'r gweithlu. Cyfeiriodd rhai cynrychiolwyr awdurdodau lleol at archwiliadau hyfforddi yr oeddent wedi eu cynnal neu ofyn i ysgolion eu cwblhau er mwyn deall anghenion datblygu proffesiynol eu gweithlu, yn ogystal â phecynnau hyfforddi yr oeddent wedi eu datblygu (e.e. ar gyfer lleoliadau blynyddoedd cynnar). Meysydd blaenoriaeth ar gyfer gweithgarwch datblygu proffesiynol yn y dyfodol a nodwyd gan awdurdodau lleol oedd dehongli'r Ddeddf a'r Cod ADY a diffiniadau o ADY a DDdY, gyda rhai yn adrodd angen i barhau i fod yn ymwybodol o faterion sy'n dod i'r amlwg, ar sail penderfyniadau Tribiwnlys a'u goblygiadau ar gyfer arfer.

Cyfeiriodd pob ysgol at ddysgu proffesiynol yr oedd eu staff wedi ei gael, gan gynnwys hyfforddiant a ddarparwyd gan yr awdurdod lleol ac ysgolion eraill, ac roedd ganddynt safbwyntiau cadarnhaol am hyn yn gyffredinol. Cyfeiriodd rhan fwyaf yr ysgolion at yr anawsterau wrth ryddhau staff i fynychu hyfforddiant oherwydd diffyg capasiti a'r costau o wneud trefniadau cyflenwi addas. Cyfeiriodd rhai ysgolion at ddysgu proffesiynol pellach y byddent yn dymuno ei gael mewn perthynas â:

- diffiniadau o ADY a DDdY, ac yn arbennig, gwahaniaethu rhwng ADY ac anghenion eraill nad oes gofyn iddynt gael DDdY
- DDdY a darpariaeth arall wedi'i thargedu, y byddai modd ei darparu fel arfer (y cyfeirir ati yn aml fel darpariaeth 'gyffredinol')
- sicrhau ansawdd CDUau
- osgoi'r ysgol am resymau emosiynol

Cyfeiriodd cynrychiolwyr lleoliadau blynyddoedd cynnar at enghreifftiau o ddysgu proffesiynol yr oeddent wedi manteisio arno trwy gyfrwng eu SAADY y Blynyddoedd Cynnar ac eraill. Roedd hyn yn cynnwys hyfforddiant ynghylch diffiniadau o ADY, ynghylch addysgu mathemateg i ddysgwyr sydd ag ADY, awtistiaeth, arfer sy'n ystyriol o drawma, lleferydd a chyfathrebu, a defnyddio'r system CDU ar-lein. Adleisiodd cynrychiolwyr lleoliadau blynyddoedd cynnar safbwyntiau cynrychiolwyr ysgolion ei bod yn gallu bod yn anodd rhyddhau staff i fynychu hyfforddiant. Roedd rhai cynrychiolwyr lleoliadau blynyddoedd cynnar yn teimlo y byddai mwy o gyllid er mwyn mynychu hyfforddiant am fathau penodol o ADY megis awtistiaeth ac ADHD yn fuddiol.

Cyfeiriodd pob SAB at hyfforddiant rheolaidd ynghylch ADY y maent yn ei roi i ymarferwyr yn eu sefydliadau eu hunain, yn ogystal â hyfforddiant a ddarparir gan weithwyr iechyd proffesiynol sy'n ymwneud â mathau penodol o angen. Awgrymodd rhai cynrychiolwyr SABau y gallai dysgu proffesiynol pellach gael ei ddarparu i gynorthwyo eu hymarferwyr wrth iddynt ddeall y diffiniad o DDdY, yn enwedig yr hyn a gaiff ei ddiffinio fel darpariaeth y byddai modd ei ddarparu fel arfer (y cyfeirir ato fel 'darpariaeth gyffredinol') a'r hyn yw DDdY.

Cyfeiriodd cynrychiolwyr BILlau at hyfforddiant a deunyddiau dysgu proffesiynol (e.e. fideos) a ddarparwyd gan SACDAau. Adroddodd rhai cynrychiolwyr BILlau yr angen am hyfforddiant ynghylch agweddau penodol ar y system ADY, gan gynnwys dulliau ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, diffiniadau o DDdY, ysgrifennu canlyniadau bwriadedig ar gyfer CDUau ac eglurder ynghylch y gwahaniaethau rhwng CDUau a Chynlluniau Gofal Iechyd Unigol.

Newidiadau o ran nifer y dysgwyr sydd ag ADY

Adroddodd cynrychiolwyr awdurdodau lleol bod tybiaeth bod angen cymorth ychwanegol ar niferoedd cynyddol o ddysgwyr i ddysgu, a bod ADY dysgwyr yn gynyddol gymhleth, fodd bynnag, ni adlewyrchwyd hyn yn y data swyddogol a oedd yn dangos gostyngiad yn y niferoedd sydd ag ADY/AAA. Roedd rhai awdurdodau lleol yn barnu nad oedd rhai dysgwyr yr oedd ganddynt AAA dan y system flaenorol, yn cael eu diffinio fel rhai sydd ag ADY dan y system newydd oherwydd bod ysgolion yn eu cynorthwyo trwy eu darpariaeth 'gyffredinol' bellach, sydd ar gael i bob dysgwr. Adroddodd rhai cynrychiolwyr awdurdodau lleol am niferoedd cynyddol o ddysgwyr yn cael eu hadnabod gydag ADY posibl yn y blynyddoedd cynnar, ac nad yw hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr ystadegau swyddogol eto efallai.

Adroddodd cynrychiolwyr ysgolion ac UCDAu brofiadau cymysg mewn perthynas â newidiadau o ran niferoedd y dysgwyr sydd ag ADY yn eu lleoliadau. Adroddodd rhai am ostyngiad yn y niferoedd, gan briodoli hyn i ddysgwyr yr oeddent dan drefniadau gweithredu gan yr ysgol a gweithredu gan yr ysgol a mwy yn flaenorol, heb fod yn bodloni'r diffiniad o ADY, ac felly, nad oes ganddynt CDUau dan y system newydd. Adroddodd eraill am gynydd yn nifer y dysgwyr sydd ag ADY yn eu hysgol.

Mynegwyd pryderon gan rai cynrychiolwyr ysgolion y gallai dysgwyr y gallai fod ganddynt ADY gael eu 'colli' oherwydd diffyg capasiti i adnabod ADY a chyflwyno DDdY mewn ysgolion. Roedd rhai cynrychiolwyr ysgolion yn pryderu am y ffaith nad oes CDU gan rai dysgwyr yr oeddent yn cael darpariaeth gweithredu gan yr ysgol a gweithredu gan yr ysgol a mwy yn flaenorol, felly nid ydynt yn cael cymorth ar yr un lefel ag yr oeddent wedi ei chael yn flaenorol. Awgrymodd rhai cynrychiolwyr ysgolion bod ansicrwydd ynghylch diffiniadau o ADY a DDdY, ynghyd â phryderon ynghylch diffyg capasiti i weithredu DDdY, yn golygu bod ysgolion yn betrusgar ynghylch creu CDUau i rai dysgwyr.

Alinio diwygiadau ADY gyda pholisïau ehangach

Adroddodd cynrychiolwyr awdurdodau lleol, ysgolion a lleoliadau blynyddoedd cynnar bod y diwygiadau ADY ac i'r cwricwlwm yn cyd-fynd o ran eu hethos a'u nodau, yn enwedig y ffocws ar ddysgu unigoleddig a dulliau sy'n canolbwyntio ar y dysgwr. Nododd cynrychiolwyr awdurdodau lleol hefyd bod cyflawni nodau'r ddau ddiwygiad yn anodd yn ymarferol oherwydd diffyg capasiti staff. Adeisiwyd y safbwyntiau hyn gan gynrychiolwyr ysgolion, yr oedd sawl un ohonynt wedi cyfeirio at ostyngiadau yn nifer y GCDau. Adroddodd rhai cynrychiolwyr ysgolion bod cael llai o GCDau yn golygu eu bod yn ei chael hi'n anos cynnwys rhai dysgwyr mewn dosbarthiadau prif ffrwd ac felly, eu bod yn fwy dibynnol ar ddarpariaeth ar gyfer grwpiau llai, megis grwpiau meithrin i rai dysgwyr. Roedd rhai cynrychiolwyr lleoliadau blynyddoedd cynnar yn teimlo bod dulliau sy'n canolbwyntio ar y

dysgwyr o fewn Cwricwlwm i Gymru (CiG) yn cyd-fynd yn well â'r system ADY na'r Cyfnod Sylfaen blaenorol. Esboniodd y cynrychiolwyr hyn o leoliadau blynyddoedd cynnar eu bod yn ystyried bod mwy o ffocws ar addasu arfer i ddiwallu anghenion dysgwyr o fewn CiG o'i gymharu â'r Cyfnod Sylfaen, yr oeddent yn teimlo ei fod yn rhoi mwy o bwyslais ar olrhain cynnydd yn erbyn cerrig milltir datblygiadol.

4. Canfyddiadau o waith maes gyda dysgwyr a rhieni

Mae'r adran hon yn cynnig crynodeb o ganfyddiadau gwaith maes a gynhaliwyd gyda dysgwyr sydd ag ADY a rhieni dysgwyr sydd ag ADY fel rhan o astudiaethau achos ardaloedd awdurdodau lleol. Mae'n cyflwyno'r themâu mwyaf amlwg a'r rhai a godwyd amlaf yn ystod trafodaethau gyda dysgwyr a rhieni.

Safbwyntiau dysgwyr

Holwyd cyfres o gwestiynau i ddysgwyr am eu profiadau yn eu lleoliad addysgol, y cymorth y maent yn ei gael, eu cyfarfod ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gwelliannau i'w haddysg a awgrymwyd, a'u nodau ar gyfer y dyfodol.

Profiadau o'r lleoliad addysg

Holwyd dysgwyr sut yr oeddent yn teimlo am eu profiad yn yr ysgol/ coleg, yn ogystal â'r hyn yr oeddent yn ei fwynhau fwyaf neu leiaf am yr ysgol neu'r coleg. Yn gyffredinol, roedd dysgwyr wedi rhoi ymatebion cadarnhaol i'r cwestiynau hyn, gyda rhai yn mynegi safbwyntiau cymysg.

Yn gyffredinol, dywedodd dysgwyr mewn ysgolion cynradd eu bod yn mwynhau'r ysgol ac roedd ganddynt safbwyntiau cadarnhaol am eu hathrawon. Mynegodd rhai bod yn well ganddynt gyflawni rhai gweithgareddau fel tynnu lluniau, defnyddio adnoddau digidol a chael amser rhydd. Esboniodd dysgwyr cynradd eu bod weithiau yn gallu dysgu pethau newydd a'u bod yn cael hyn yn anodd ar adegau eraill. Cyfeiriodd dysgwyr at rai enghreifftiau o'r hyn yr oeddent wedi'i ddysgu, gan nodi eu bod wedi dysgu ffeithiau newydd o wneud gwaith prosiect ar bynciau penodol megis ffeithiau am ardaloedd daearyddol penodol.

Mynegwyd safbwyntiau mwy cymysg yn gyffredinol gan ddysgwyr mewn ysgolion uwchradd ynghylch eu mwynhad o'r ysgol, ond yn gyffredinol, roeddent yn credu bod eu hathrawon yn gyfeillgar ac yn ymgysylltu â nhw. Adroddodd dysgwyr uwchradd bod yn well ganddynt gael gwersi rhyngweithiol ac ymarferol megis coginio, gwaith coed, canu, drama a chelf. Roedd mathemateg a gwyddoniaeth yn enghreifftiau o bynciau a oedd yn llai diddorol ym marn y dysgwyr. Esboniodd dysgwyr eu bod yn gwybod eu bod yn sicrhau cynnydd neu'n symud ymlaen gyda'u dysgu pan fyddent yn ymgysylltu'n llawn ac yn awyddus i ddysgu mwy. Nododd sawl dysgwr eu bod yn ei chael hi'n anodd ymdopi â synau uchel ac y gallai dosbarthiadau mwy o faint deimlo'n ddi-drefn ac yn swnllyd, ac y gallai pethau eraill dynnu eu sylw ac y gallent deimlo dan straen ynddynt. Felly, roedd yn well gan ddysgwyr fod mewn dosbarthiadau llai oherwydd eu bod yn teimlo bod llai o bethau yn tarfu ar y dysgu a bod gofyn i lai o ddisgyblion gael sylw yr athrawon.

Yn gyffredinol, mynegwyd safbwyntiau cadarnhaol gan ddysgwyr mewn colegau AB am eu profiad yn y coleg. Adroddodd dysgwyr eu bod yn dysgu pethau newydd, eu bod yn teimlo'n gorfforol ddiogel yn eu hamgylchedd dysgu, eu bod yn teimlo eu bod yn cael cymorth da a bod staff y coleg yn gynorthwyol yn gyffredinol, yn enwedig pan fyddant yn helpu dysgwyr i rannu pethau yn rhannau llai er mwyn gwneud y dysgu yn haws. Roedd dysgwyr yn

mwynhau'r annibyniaeth a gynnigir iddynt gan y coleg, o'i gymharu â'u hysgol, ac adroddwyd bod hyn wedi eu galluogi i fod yn fwy hyderus yn eu hunain, gan annog a chymell eu dysgu. Fodd bynnag, roedd un dysgwr yn teimlo y byddai wedi bod o gymorth cael mwy o wybodaeth ac eglurder am gynnwys eu cwrs wrth iddynt gofrestru.

Cymorth er mwyn dysgu

Holwyd dysgwyr pa gymorth y maent yn ei gael i'w helpu i ddysgu, yn ogystal â'u safbwyntiau am y cymorth hwn.

Dywedodd dysgwyr mewn ysgolion cynradd eu bod yn cael swm cywir yr help y mae ei angen arnynt. Roedd enghreifftiau o'r cymorth yr oedd y dysgwyr wedi sôn amdano yn cynnwys cael CA un-i-un a allai helpu i esbonio dysgu iddynt, a/neu gyfleoedd i gymryd seibiant o'r dosbarth a chael 'amser tawel' pan fyddai ei angen arnynt.

Dywedodd dysgwyr mewn ysgolion uwchradd eu bod yn cael ystod eang o wahanol fathau o gymorth, gan gynnwys y canlynol:

- Mynediad i le tawel yn ôl yr angen
- Dysgu mewn dosbarthiadau llai
- Mynediad i hyb cymorth ADY
- Sesiynau 'Trafod' lle y gall dysgwyr siarad gyda'r CADY neu'r CA am unrhyw beth y maent yn gofidio amdano
- Dysgu yn yr awyr agored megis cynllunio a chreu strwythurau a gweithgareddau garddio
- Teithiau ysgol
- Cyfleoedd i aros yn yr un ystafell ddosbarth i gael gwersi, yn hytrach na symud dosbarthiadau am wahanol wersi
- Amser ychwanegol i deipio ar y cyfrifiadur

Yn gyffredinol, roedd dysgwyr mewn ysgolion uwchradd yn teimlo eu bod yn cael lefel dda o gymorth a'u bod yn gallu siarad gyda staff am yr hyn y mae ei angen arnynt. Fodd bynnag, roedd rhai dysgwyr yn teimlo nad oedd yr athrawon yn gallu rhoi eu sylw llawn iddynt weithiau pan fyddai disgyblion eraill yn tarfu arnynt. Roedd rhai dysgwyr yn teimlo eu bod weithiau yn cael cerydd gan athrawon yn hytrach na bod athrawon yn gwrando arnynt.

Dywedodd dysgwyr mewn colegau AB hefyd eu bod yn cael ystod eang o wahanol fathau o gymorth, gan gynnwys y canlynol:

- Athrawon yn neilltuo amser i esbonio tasgau yn glir
- Defnyddio clustffonau er mwyn helpu i gynnal ffocws
- Argaeledd staff cymorth i ddysgwyr siarad â nhw
- Mynediad i le tawel yn ôl yr angen

- Sesiynau wedi'u teilwra a'u targedu (yn aml yn wythnosol) am bynciau sy'n anodd i ddysgwyr (e.e. sillafu ac ysgrifennu)
- Sesiynau sy'n canolbwyntio ar anghenion emosiynol dysgwyr (e.e. rheoli emosiynau, delio â sefyllfaoedd cymdeithasol anodd)
- Mynediad i hyb lles

Yn gyffredinol, roedd dysgwyr mewn colegau AB yn teimlo eu bod yn cael yr help y mae ei angen arnynt. Nododd un dysgwr yr hoffent gael mwy o wybodaeth am gynnwys y cwrs a'r amserlen oherwydd y byddai gwybod pryd y byddai pynciau yn cael sylw o gymorth iddynt.

Cyfarfodydd ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a CDU

Pan oedd hynny'n briodol, holwyd dysgwyr am y cyfarfod ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a'r CDU. ^[Troednodyn 7] Nid oedd rhan fwyaf y dysgwyr yn ymwybodol o'u CDU. Felly, roedd y trafodaethau wedi canolbwyntio ar eu profiadau o'u cyfarfod ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Roedd tua hanner y dysgwyr a gyfwelwyd naill ai ddim yn cofio cyfarfod ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn cael ei gynnal neu nid oeddent yn cofio'r hyn a drafodwyd yn ystod y cyfarfod. Roedd hyn yn tueddu i fod yn wir ar gyfer dysgwyr mewn ysgolion cynradd a rhai mewn ysgolion uwchradd. O blith y dysgwyr hynny oedd yn gallu cofio'r cyfarfod ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn – roedd rhai o'r dysgwyr hyn mewn ysgol uwchradd ac roedd rhai ohonynt mewn coleg AB – roedd dysgwyr yn teimlo yn gyffredinol bod rhywun wedi gwrando arnynt yn ystod y cyfarfod ac roeddent yn teimlo eu bod wedi bod yn “rhan o'r sgwrs”. Ymhellach, mewn rhai achosion, roedd dysgwyr yn credu bod canlyniad y cyfarfod ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wedi cael effaith ar y cymorth yr oeddent yn ei gael. Er enghraifft, nododd un dysgwr eu bod wedi cael mwy o help gyda sillafu ac ysgrifennu ar ôl y cyfarfod, a'u bod wedi mynychu sesiwn wythnosol i'w cynorthwyo gyda hyn. Nododd dysgwr arall bod targedau wedi cael eu trafod yn ystod y cyfarfod, a bod y rhain wedi cael eu monitro ers y cyfarfod, gan alluogi i gynnydd gael ei olrhain.

Fodd bynnag, mewn nifer fach o achosion, roedd dysgwyr a oedd yn cofio'r cyfarfod ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn cael ei gynnal wedi mynegi profiad llai cadarnhaol. Er enghraifft, adroddodd un dysgwr mewn coleg AB bod eu hathro cwrs, yr oeddent yn disgwyl iddynt fod yn y cyfarfod, heb fynychu. Nododd dau ddysgwr nad oeddent wedi sylwi ar unrhyw newidiadau yn dilyn y cyfarfod.

⁷[7] Cyn cyfarfod dysgwyr, holwyd CADYau a fyddai dysgwyr yn debygol o fod yn ymwybodol o'u CDU, a fyddent yn adnabod y term cyfarfod ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn neu CDU ac a fyddai'n debygol y byddent yn gallu cofio'r cyfarfod. Yna, aeth yr ymchwilydd ati i deilwra'r cwestiynau ar gyfer y dysgwyr mewn ffordd briodol.

Lles

Holwyd dysgwyr a oeddent yn teimlo'n hapus yn yr ysgol/ coleg, a oedd ganddynt rywun i siarad â nhw pe bai ganddynt unrhyw broblemau neu rywle i fynd i ymlacio a chael seibiant yn ôl yr angen.

Yn gyffredinol, adroddodd dysgwyr mewn ysgolion cynradd eu bod yn teimlo'n hapus yn yr ysgol a phe bai unrhyw beth yn anodd neu'n heriol iddynt, eu bod yn teimlo y gallent droi at eu hathrawon am help.

Roedd dysgwyr mewn ysgolion uwchradd yn teimlo'n hapus yn yr ysgol yn gyffredinol hefyd, er bod eu safbwyntiau yn fwy cymysg na safbwyntiau dysgwyr cynradd. Esboniodd dysgwyr uwchradd bod rhywle y gallent fynd iddo (e.e. hyb ADY neu grŵp meithrin) neu rywun y gallent siarad â nhw (e.e. athro/CADY) pe bai angen iddynt wneud hynny. Fodd bynnag, dywedodd un dysgwr eu bod weithiau yn teimlo'n chwithig a'u bod yn teimlo bod disgyblion eraill yn eu beirniadu. Roedd un dysgwr yn teimlo bod athrawon yn gwrando ar eu pryderon, ond nad oeddent yn teimlo bod athrawon yn gweithredu i leddfu'r rhain.

Dywedodd dysgwyr mewn colegau AB hefyd eu bod yn gwybod bod rhywun y gallent siarad â nhw pe bai angen iddynt wneud hynny. Adroddont eu bod yn teimlo'n ddiogel ac yn cael cymorth emosiynol, a'u bod yn gallu cael mynediad i rywle pe bai angen seibiant arnynt (e.e. ystafelloedd lles ac ymlacio).

Gwelliannau a awgrymwyd

Holwyd y dysgwyr a oeddent yn gallu awgrymu unrhyw welliannau, y byddent yn eu helpu i ddysgu'n well yn yr ysgol/ coleg.

Nid oedd dysgwyr mewn ysgolion cynradd wedi cynnig unrhyw awgrymiadau am newidiadau a fyddai'n eu helpu i ddysgu'n well yn yr ysgol. Awgrymwyd newidiadau i ymyriadau er mwyn helpu i atal neu roi sylw i fwlio gan rai dysgwyr mewn ysgolion uwchradd, gan awgrymu'n benodol y dylid gosod arwyddion am fwlio mewn mannau mwy amlwg ar draws yr ysgol gyfan. Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys treulio llai o oriau yn yr ysgol, dysgu ar-lein, triniaeth gyfartal i bob disgybl, mwy o breifatrwydd, a mannau y gallent fynd i fod ar eu pen eu hunain – naill ai eu lle eu hunain mewn ystafell ddosbarth neu y tu allan.

Awgrymodd rhai dysgwyr mewn colegau AB y byddent yn dymuno cael mwy o wybodaeth am eu cwrs, fel y byddent yn fwy ymwybodol o'r hyn i'w ddisgwyl (e.e. beth sy'n digwydd a phryd). Roedd awgrymiadau eraill gan rai dysgwyr yn cynnwys canlyniadau i fyfyrwyr sy'n camymddwyn, dewisiadau bwyd iachach yn y ffreutur, a llai o oriau yn y coleg.

Nodau ar gyfer y dyfodol

Holwyd dysgwyr pa lwybr gyrfa yr oeddent yn dymuno ei ddilyn ar ôl gadael yr ysgol/coleg ac a yw eu lleoliad addysg yn eu cynorthwyo i ganlyn eu nodau ar gyfer y dyfodol.

Roedd dysgwyr mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn ansicr am yr hyn yr oeddent yn dymuno ei wneud ar ôl gorffen yr ysgol, neu'r yrfa yr oeddent yn dymuno ei chanlyn. Roedd dysgwyr mewn colegau AB yn tueddu i esbonio mai'r unig beth yr oeddent yn dymuno ei wneud am nawr oedd parhau i astudio yn y coleg. Esboniodd dysgwyr mewn un coleg bod eu coleg wedi cynnig cyfleoedd er mwyn eu helpu i ddeall eu dewisiadau o ran llwybrau gyrfa yn y dyfodol. Er enghraifft, roedd y coleg wedi cynnig cyfarfodydd a chynnal ffeiriau 'beth nesaf' a diwrnodau agored a fynychwyd gan golegau a sefydliadau eraill. Mae'r coleg wedi cyfeirio dysgwyr at gyfleoedd dysgu pellach hefyd. Awgrymodd dysgwyr y byddent yn croesawu cymorth gan staff y coleg er mwyn eu helpu i gwblhau eu ceisiadau i wneud gwaith astudio pellach.

Safbwyntiau rhieni

Trosolwg

Disgrifiodd y naw rhiant a oedd wedi cymryd rhan yn yr astudiaeth hon gymysgedd eang o brofiadau o'r system ADY. Soniodd rhai rhieni am berthnasoedd cryf gydag ysgolion a CADYau, yn enwedig mewn ysgolion arbennig, lle'r adroddwyd bod y cyfathrebu yn gyson a lle y teimlwyd bod cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn gweithio'n dda. Roedd eraill, fodd bynnag, wedi disgrifio oedi wrth sicrhau CDUau, ansicrwydd am brosesau, a CDUau nad oeddent yn adlewyrchu anghenion eu plentyn yn llawn. Dywedodd sawl rhiant bod y DDdY a nodwyd yn y CDU yn rhy eang neu'n canolbwyntio ar ymddygiad yn bennaf, a'u bod yn credu nad oes elfennau allweddol yn cael eu darparu oherwydd prinder staff, diffyg lle neu adnoddau cyfyngedig mewn ysgolion prif ffrwd.

Disgrifiodd nifer o rieni orfod gwrthio dro ar ôl tro am asesiadau, am CDU, a/neu am ddarpariaeth, gan wneud cwynion ffurfiol weithiau neu droi at eiriolaeth allanol am help. Yn aml, disgrifiwyd cydlynw ar draws addysg, iechyd a gwasanaethau eraill fel rhywbeth anghyson, gan adael i rieni deimlo mai nhw yw'r rhai sy'n hwyluso cyfathrebu rhwng sefydliadau. Roedd rhai yn teimlo nad oedd lleoliad eu plentyn yn briodol, neu bod anghenion eu plentyn yn golygu eu bod yn syrthio "rhwng" darpariaeth prif ffrwd ac arbenigol. Yn ogystal, adroddodd rhieni mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg am fynediad cyfyngedig i arbenigwyr sy'n siarad Cymraeg.

Yn gyffredinol, roedd rhieni yn gwerthfawrogi mewnbwn staff yr ysgol ac roeddent yn cyfeirio at staff sy'n cyfathrebu â nhw mewn ffordd glir, ac yn eu cynnwys mewn gwaith cynllunio ac yn cynorthwyo anghenion eu plentyn, ond roedd nifer yn teimlo bod y system yn anodd i'w deall ac nad yw'r cymorth wastad yn cyd-fynd ag anghenion eu plentyn.

Roedd y rhieni a oedd wedi cymryd rhan yn y gwaith ymchwil hwn yn cynrychioli set amrywiol o amgylchiadau ar draws ardal y pedwar awdurdod lleol. Roedd oedran eu plant

yn amrywio o 6 i 13 oed, ac roeddent yn cael eu haddysgu ar draws cymysgedd eang o leoliadau, gan gynnwys ysgolion cynradd ac uwchradd prif ffrwd, ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg, ysgolion arbennig, ac UC Dau. Mewn rhai achosion, soniodd rhieni bod eu profiadau yn ymwneud â mwy nag un o'u plant, y mae gan bob un ohonynt ADY. Ar draws y sampl, roedd plant yn cael gwahanol fathau o gymorth ADY. Roedd gan rai CDUau a luniwyd yn yr ysgol, roedd gan eraill CDUau sy'n cael eu cynnal gan yr awdurdod lleol, ac nid oedd gan un plentyn CDU er gwaethaf y ffaith bod y rhiant yn teimlo y dylai fod ganddynt CDU. Roedd anghenion plant yn amrywio, ac adroddodd rhieni am awtistiaeth, ADHD, osgoi galw, materion synhwyraidd, dyslecsia, gorbryder, osgoi'r ysgol am resymau emosiynol, ac anawsterau ymddygiadol neu gyfathrebu cymhleth. Yn ogystal, disgrifiodd rhieni wahanol lwybrau er mwyn adnabod y rhain, o ddiagnosis cynnar cyn mynychu'r ysgol, i sefyllfaoedd lle nad oedd anghenion yn cael eu cydnabod neu lle'r oeddent yn cael eu camddeall nes i'r sefyllfa waethygu neu nes bod gwaharddiadau yn digwydd.

Profiadau Rhieni o'r Broses CDU

Disgrifiodd rhieni ystod eang o brofiadau gyda'r broses CDU, gan amrywio o fod yn un esmwyth iawn i fod yn heriol iawn.

Mewn rhai achosion, dywedodd rhieni bod yr ysgolion yn arwain y broses yn dda: er enghraifft, esboniodd un rhiant bod yr ysgol wedi paratoi'r CDU, gan geisio eu safbwyntiau trwy ffurflen a chyfarfod, a chydweithio i gytuno ar y cynllun, a oedd yn glir ac yn syml yn eu barn nhw.

Fodd bynnag, adroddodd nifer o rieni eu bod wedi cael profiad mwy negyddol, a oedd yn cynnwys oedi, ceisiadau am CDU yn cael eu hanwybyddu, prosesau aneglur, ailysgrifennu rhannau o'r CDU eu hunain, cyfarfodydd yn cael eu canslo neu'n gorfod gwrthio am greu neu ddiweddarau CDU dro ar ôl tro. Disgrifiodd rhai y cam o gyflwyno cwynion neu geisiadau Rhyddid Gwybodaeth er mwyn cael gwybodaeth.

Adroddodd rhieni am amrywiadau yn ansawdd CDU eu plentyn. Roedd rhai rhieni yn teimlo bod cynllun eu plentyn yn drylwyr, yn adlewyrchu anghenion, a'i fod yn helpu eu plant i gael y cymorth y mae ei angen arnynt, yn enwedig mewn lleoliadau arbenigol. Roedd eraill yn disgrifio CDUau a oedd yn annelwig yn eu barn nhw, heb fanylder am y DDdY i'w darparu, neu yr oedd gwybodaeth ar goll ynddynt. Roedd rhai rhieni yn teimlo bod y CDU yn adlewyrchu'r hyn a oedd yn bosibl i'r ysgol ei ddarparu o ran staffio ac adnoddau, yn hytrach na'r hyn yr oedd gofyn i'w plentyn ei gael mewn gwirionedd. Adroddwyd bod cyswllt rhieni a dysgwyr gyda phroses y CDU a'r cyfarfodydd ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn gymysg hefyd. Roedd rhai yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn llawn a'u bod yn gallu rhannu safbwyntiau yn ystod cyfarfodydd, ac roedd eraill yn teimlo bod eu cyfraniadau yn cael eu hadlewyrchu yn rhannol yn unig, neu nad oedd safbwyntiau'r plentyn yn cael eu cefnogi neu'n cael eu deall yn dda.

Safbwyntiau am Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY)

Roedd safbwyntiau am y DDdY a gofnodwyd yn y CDU yn amrywio o rai cadarnhaol iawn i rai negyddol iawn. Roedd rhai rhieni, ac yn enwedig y rhai sydd â phlant mewn lleoliadau arbenigol, yn teimlo bod y ddarpariaeth yn cyd-fynd â'r angen yn dda, gan amlygu addysgu ar gyfer awtistiaeth yn benodol, dosbarthiadau bychain a chymorth synhwyrdd da. Adroddodd eraill bod eu plentyn yn cael DDdY sy'n rhoi gormod o bwyslais ar ymddygiad, bod y DDdY yn rhy gyfyngedig (megis amserlenni hanner-diwrnod), yn cael ei darparu mewn ffordd anghyson neu heb fod wedi cael ei theilwra yn ddigonol i anghenion eu plentyn. Yn ogystal, adroddodd rhieni bod lefelau staffio a'r lle sydd ar gael yn aml yn siapio'r hyn y byddai modd ei ddarparu, sy'n golygu na fyddai gwaith grŵp bach wedi'i gynllunio neu ymweliadau â chymorth er mwyn ailintegreiddio eu plentyn mewn lleoliad addysg, wastad yn digwydd. Mewn sawl achos, roedd rhieni yn teimlo nad oedd y DDdY yn gwneud digon i gynorthwyo dysgu neu gynnydd academiaidd eu plentyn.

Adroddodd y rhan fwyaf o rieni nad yw eu plentyn yn cael DDdY a sicrhawyd gan gorff GIG (a elwir 'DDdY iechyd' weithiau). O blith y rheiny yr oedd eu plentyn yn cael DDdY iechyd, roedd y ddarpariaeth yn cynnwys Therapi Galwedigaethol (ThG) a chymorth ThILI. Adroddodd un rhiant bod eu plentyn yn cael cymorth ThG GIG yn yr ysgol. Nododd rhiant arall, yr oedd eu plentyn wedi cael ThILI, eu bod wedi cael eu rhyddhau o'r gwasanaeth oherwydd y dylai'r ysgol fod yn gallu cynorthwyo lefel angen ThILI y plentyn.

O blith y ddau riant a gyfwelwyd ac yr oedd ganddynt blant mewn ysgol cyfrwng Cymraeg, dim ond un oedd yn rhiant plant sy'n cael DDdY. Adroddodd y rhiant hwnnw am heriau sylweddol. Nodont eu bod yn credu bod prinder staff sy'n gallu siarad Cymraeg a bod rhan fwyaf y cymorth arbenigol, gan gynnwys darpariaeth allgymorth, ymyriadau lles, a chyfarfodydd datgelu, yn cael eu darparu yn Saesneg. Roedd y rhiant hwn yn teimlo bod yr anghysondeb hwn yn tanseilio cydlyniaeth y cymorth a ddarparir, gyda'r system yn tueddu i "symud i'r Saesneg yn ddiofyn".

Profiadau o Gyfathrebu a Chymorth

Adroddodd nifer o'r rhieni eu bod yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt, eu bod yn gallu rhannu eu safbwyntiau a chynnal trafodaethau gyda'r ysgol ynghylch anghenion eu plentyn. Fodd bynnag, adroddodd rhieni hefyd am oedi rhwng trafod anghenion eu plentyn a'r cymorth yn cael ei weithredu, gyda rhai yn nodi bod sicrhau DDdY briodol yn broses hir weithiau, a'u bod yn teimlo nad yw hyn wastad yn arwain at gymorth effeithiol yn cael ei ddarparu.

Mynegwyd anfodlonrwydd cryf gan un rhiant, nad oedd gan eu plentyn CDU, am y ffaith nad oedd anghenion eu plentyn yn cael eu bodloni. Nodont heriau o ran darparu adnoddau yn ysgol eu plentyn, yn enwedig y diffyg amser un-i-un gyda CA, dibyniaeth ar sesiynau grŵp er mwyn cynorthwyo dysgwyr sydd ag ADY, a'r ffaith bod angen i blant aros i gael cymorth. Yn ogystal, mynegwyd pryderon ynghylch y ffaith nad oes gan athrawon yr amser i gynllunio mewn ffordd effeithiol a darparu cymorth. Barnwyd bod heriau o'r fath yn cael eu gwaethygu gan faterion staffio a bod gan athrawon ddyletswyddau a chyfrifoldebau ychwanegol yn yr ysgol, ar wahân i addysgu.

Holwyd rhieni am y graddau yr oeddent yn teimlo bod gwasanaethau gwahanol (megis addysg, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol) yn cydweithio mewn ffordd effeithiol er mwyn bodloni anghenion eu plentyn. Adroddodd yr holl rieni a oedd wedi cael profiad o gydweithio rhwng y gwasanaethau hyn am brofiadau negyddol. Nododd y rhieni hyn ddiffyg cyfathrebu a chydlynu ymhlith y gwahanol sectorau, a oedd wedi peri iddynt “fynd o gwmpas mewn cylchoedd gyda gwahanol asiantaethau” a “gorfod bod yn bont” rhwng gwasanaethau. Ymhellach, nododd y rhieni hyn bod y diffyg cyfathrebu a chydweithio hwn wedi cael effaith ar y cymorth yr oedd eu plant yn ei gael. Cyfeiriodd rhieni at enghreifftiau megis oedi cyn y byddai gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo rhwng sefydliadau neu adroddiadau heb fod yn cael eu rhannu.

Pontio Rhwng Lleoliadau Addysg

Adroddodd bron pob rhiant a gyfwelwyd bod eu plentyn wedi pontio rhwng lleoliadau addysgol, gan gynnwys rhwng y lleoliadau canlynol:

- ysgol gynradd i ysgol uwchradd
- ysgol prif ffrwd i ysgol arbennig
- lleoliad prif ffrwd i safle adnoddau arbenigol neu ddarpariaeth AHY
- lleoliad addysg yn Lloegr i Gymru

Roedd safbwyntiau rhieni am brosesau pontio yn amrywiol, gyda rhai yn adrodd bod pontio rhwng lleoliadau wedi mynd yn dda, ac eraill yn nodi eu bod wedi cael anawsterau.

O blith y rhieni a adroddodd am bontio cadarnhaol, nodwyd bod cymorth cychwynnol estynedig er mwyn sicrhau pontio esmwyth yn ffactor galluogol ac yn fudd pwysig i'w plant wrth iddynt symud rhwng lleoliadau. Yn ogystal, adroddodd rhan fwyaf y rhieni eu bod yn hapus gyda lefel y cyfathrebu rhyngddyn nhw a phob lleoliad addysgol, gan nodi bod hyn wedi galluogi pontio esmwyth. Fodd bynnag, nid oedd rhai rhieni yn teimlo bod y lleoliadau eu hunain, ac mewn rhai achosion, yr awdurdod lleol, wedi cyfathrebu'n dda â'i gilydd neu gydweithio mewn ffordd effeithiol yn ystod y cyfnod pontio.

Nid oedd pob rhiant wedi adrodd am brofiadau cadarnhaol mewn lleoliadau newydd ar ôl pontio iddynt. Nododd un rhiant, er bod eu plentyn wedi setlo'n dda yn eu lleoliad newydd ar ôl symud o ysgol prif ffrwd i ysgol arbennig, roeddent yn pryderu a oedd unrhyw un o'r lleoliadau hyn yn addas i'w plentyn. Adlewyrchwyd y safbwynt hwn gan rai rhieni eraill, a oedd wedi mynegi anfodlonrwydd gyda'r ddarpariaeth mewn lleoliadau newydd. Nododd un rhiant eu bod wedi penderfynu tynnu eu plentyn allan o'r ysgol gan nad oedd eu hanghenion yn cael eu bodloni. Adroddodd rhiant arall eu bod yn teimlo bod y ddarpariaeth yn y lleoliad newydd yn cael ei chyfyngu gan yr adnoddau a'r staff a oedd ar gael, yn hytrach na chael ei hysgogi gan anghenion eu plentyn.

Nodwyd ffactorau eraill niferus gan rieni, fel rhai a oedd wedi cael effaith negyddol ar bontio rhwng lleoliadau. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Diffyg dealltwriaeth ymddangosiadol ynghylch anghenion eu plentyn, neu staff yn anghyfarwydd â CDU plentyn yn y lleoliad newydd
- prinder staffio mewn lleoliadau newydd yn arwain at DDdY heb fod yn cael ei darparu
- anawsterau trafnidiaeth gan bod lleoliadau newydd yn bellach i ffwrdd, yn enwedig ysgolion arbennig
- ychydig iawn o wybodaeth yn cael ei rhannu am ddarpariaeth amgen er mwyn i rieni allu gwneud penderfyniadau gwybodus

Ymhellach, roedd rhieni yr oedd eu plant wedi pontio rhwng gwahanol lleoliadau ieithyddol yn teimlo nad yw cymorth cyfrwng Cymraeg, a ddarparir mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, yn cael cymaint o adnoddau ag y bydd y cymorth hwn yn ei gael mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg.

Dealltwriaeth Rhieni o'r System ADY

Holwyd rhieni a oeddent yn teimlo eu bod yn deall y system ADY ac a oedd wedi cael ei hesbonio yn glir iddynt, er enghraifft, gan ymarferwr addysg, gweithiwr iechyd proffesiynol, neu sefydliad cymorth/eiriolaeth.

Adroddodd rhan fwyaf y rhieni eu bod wedi canfod y system yn anodd i'w deall a'i defnyddio, yn enwedig y prosesau a'r Cod ADY, a gwahanol rolau a chyfrifoldebau ar draws y sectorau (er enghraifft, cyswllt gweithwyr iechyd proffesiynol). Yn ogystal, adroddodd rhieni y gallai terminoleg ac acronymau a ddefnyddir yn y system ADY fod yn ddryslyd. Adroddodd rhai rhieni eu bod wedi gweithio ym myd addysg eu hunain, a'u bod yn gweld y system yn un anodd i'w deall o hyd. Mynegodd y rhieni hyn bryder dros eraill sy'n ceisio deall y system, nad ydynt yn meddu ar wybodaeth flaenorol debyg.

Adroddodd rhai rhieni nad oeddent wedi cael unrhyw gymorth ac y bu'n rhaid iddynt chwilio am wybodaeth eu hunain er mwyn gwella eu dealltwriaeth o'r system. Nododd eraill eu bod wedi cael help, a fu'n fuddiol iawn. Roedd hyn yn cynnwys cyswllt rheolaidd ac esboniad gan CADYau yn ysgol eu plentyn, a chymorth gan sefydliadau eiriolaeth.

Roedd rhai rhieni yn tybio nad yw lleoliadau addysgol wastad yn gallu helpu a thywys rhieni o gwmpas y system ADY gan nad oes ganddynt wybodaeth a dealltwriaeth berthnasol eu hunain, er enghraifft am y Cod ADY, gan adael rhieni i deimlo nad ydynt yn cael eu cynorthwyo.

Roedd gan nifer fach o rieni a gyfwelwyd brofiad neu gof o'r system AAA flaenorol. Roedd un rhiant yn credu bod y CDU yn fwy unigoleddig na Datganiad AAA blaenorol eu plentyn. Roedd rhiant arall yn teimlo nad oedd y newid i CDU wedi gwneud fawr iawn o wahaniaeth ymarferol gan bod eu plentyn wedi aros yn yr un lleoliad arbenigol ac nad oedd y cymorth wedi newid rhyw lawer o gwbl.

Herio Penderfyniadau ac Apeliadau

Roedd profiadau rhieni o ddeall a defnyddio eu hawliau i herio penderfyniadau yn amrywio'n sylweddol. Roedd nifer fach yn teimlo eu bod yn wybodus, er enghraifft, nododd un rhiant bod CDU eu plentyn yn cael ei gyhoeddi gyda gwybodaeth ysgrifenedig glir ynghylch llwybrau apelio a'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael, er na fu angen iddynt ddefnyddio'r rhain. Adroddodd eraill, fodd bynnag, eu bod wedi gorfod ymchwilio i'w hawliau yn annibynnol, gan eu bod yn teimlo nad oedd ysgolion ac awdurdodau lleol wedi esbonio'r prosesau iddynt. Disgrifiodd sawl rhiant eu bod wedi dysgu am eu hawliau trwy sefydliadau allanol fel SNAP Cymru, neu trwy eu rhwydweithiau personol neu eu gwybodaeth broffesiynol eu hunain.

Roedd chwech o'r rhieni a gyfwelwyd wedi herio penderfyniadau am leoliad neu gymorth ADY eu plentyn, gan gynnwys un a oedd wedi mynd â'u hachos gerbron tribiwnlys. Roedd rhiant arall wedi ystyried mynd i dribiwnlys, ond roedd y costau disgwylidig o gynnwys cyfreithwyr yn y broses wedi peri iddynt benderfynu peidio. Disgrifiodd un rhiant sut yr oeddent wedi herio penderfyniadau lluosog ynghylch lleoliad eu plentyn a chynnwys eu CDU; esboniodd y rhiant hwn bod y cyfathrebu rhwng yr ysgol a'r awdurdod lleol wedi bod

yn anghyson, gyda'r ddau yn rhoi cyfrifoldebau ar y llall ac o ganlyniad, bod y broses wedi teimlo fel un gwrthwynebol yn hytrach nag un gydweithredol. Adroddodd rhiant arall nad oeddent wedi cael ymateb i geisiadau ffurfiol am CDU, ac y bu'n rhaid iddynt ofyn am ymateb dro ar ôl tro cyn cael cymorth gan wasanaethau eiriolaeth yn y diwedd.

Ar draws yr achosion hyn, roedd hi'n gyffredin i rieni sôn am oedi, cyfathrebu aneglur a diffyg canllawiau rhagweithiol gan wasanaethau statudol.

Safbwyntiau Rhieni am yr Hyn a oedd yn Gweithio'n Dda a'r Hyn nad oedd yn Gweithio Gystal

Estynnwyd gwahoddiad i rieni rannu eu safbwyntiau ynghylch pa agweddau ar yr system ADY yr oeddent yn teimlo eu bod yn gweithio'n dda. Croesawyd yr egwyddorion sy'n cynnig sylfaen ar gyfer y system ADY gan rieni, law yn law â'r ffaith bod dulliau mwy holistig a chynhwysol tuag at addysgu a chymorth yn bosibl oherwydd bod Cwricwlwm i Gymru wedi cael ei gyflwyno.

Adroddodd rhai rhieni am berthnasoedd cryf rhwng rhieni ac ysgolion, gyda rhai yn adrodd eu bod wedi meithrin cysylltiadau da gyda staff addysgu yr oeddent yn teimlo eu bod wedi ymrwymo i gynorthwyo eu plant. Roedd gan sawl rhiant safbwyntiau cadarnhaol am CADY eu hysgol, a'u rôl bwysig wrth gyfathrebu gyda rhieni.

Holwyd barn rhieni am agweddau ar y system ADY nad ydynt yn gweithio'n dda yn eu barn nhw, ac y mae angen eu gwella. Cyfeiriwyd at gyfathrebu gwael a diffyg ymgynghori, gyda chyfeiriad at enghreifftiau o ychydig gyfathrebu yn unig rhwng rhieni a'r ysgol / awdurdod lleol. Roedd un rhiant yn teimlo mai adnoddau cyfyngedig a gynigir gan yr ysgol er mwyn dysgu yn y cartref.

Yn ogystal, cyfeiriwyd at y dulliau amrywiol ar draws gwahanol awdurdodau lleol gan rieni, gyda safbwynt y dylai fod dull gweithredu safonol ar draws Cymru trwy gyfrwng cynnig cenedlaethol. Soniodd rhieni am gydlynw gwael rhwng gwasanaethau hefyd, gyda rhai yn disgrifio oedi, methu dyddiadau cau, a theimlad o gael eu trosglwyddo rhwng yr ysgol a'r awdurdod lleol heb unrhyw berchnogaeth glir dros benderfyniadau.

Estynnwyd gwahoddiad i rieni gynnig sylwadau ychwanegol am eu safbwyntiau ynghylch y system ADY, a'u profiad ohoni. Roedd rhieni yn teimlo bod athrawon heb fod yn meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth o'r system ADY weithiau, a mynegwyd pryderon bod hyn yn golygu nad oedd rhai athrawon yn gwybod am y ffordd orau o gynorthwyo plant sydd ag ADY.

Roedd rhai rhieni yn teimlo bod angen mwy o amrywiaeth o ran amrediad y pynciau sydd ar gael mewn ysgolion, gan nodi y gallai hyn gynnig budd a chynorthwyo plant sydd ag ADY yn well. Darparwyd sawl enghraifft, megis coginio a garddio, yn ogystal â mwy o ffocws ar weithgarwch corfforol, iechyd a ffitrwydd. Adroddodd un rhiant plentyn mewn ysgol gynradd bod gwersi AG yn ysgol eu plentyn yn cael eu canslo weithiau, a disgrifiont ddiffyg cyfleoedd i'w plentyn gymryd rhan mewn chwaraeon, o ganlyniad i le cyfyngedig, er gwaethaf y ffaith bod eu plentyn yn cael mwynhad gan ddysgu sy'n seiliedig ar chwaraeon.

Yn ogystal, mynegwyd dymuniad gan rieni i weld mwy o glybiau ar ôl ysgol yn yr ysgol, a theithiau, gan nodi bod y rhain yn helpu i wella rhyngweithio cymdeithasol i blant sydd ag ADY. Adroddwyd am rwystrau, fodd bynnag, yr oedd rhieni yn teimlo eu bod yn atal y gweithgareddau hyn rhag digwydd. Er enghraifft, disgrifiodd un rhiant sut yr oedd lleoliad ysgol wledig eu plentyn yn golygu ei bod yn anodd cynnal teithiau ysgol, gan nodi ymhellach eu bod yn teimlo bod staff eisoës yn gwneud gormod, ac nad oes modd iddynt ymrwymo i gynnal gweithgareddau allgyrsiol.

5. Crynodeb o'r prif ganfyddiadau

Mae'r crynodeb isod yn seiliedig ar y canfyddiadau a gyflwynwyd ym Mhennod 3. Wrth ddehongli'r crynodeb hwn, dylid ystyried y cyfyngiadau o ran y fethodoleg (gweler Adran 2), ac yn arbennig, maint y sampl a risg posibl tuedd o ran y sampl.

Cynnydd cyffredinol wrth weithredu'r system ADY

Ystyriwyd bod cydweithio rhwng ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol, o fewn ac ar draws sectorau, yn agwedd ar y system ADY a oedd yn gweithio'n dda yn gyffredinol. Roedd enghreifftiau yn cynnwys rhwydweithiau amlasiantaeth, cydweithio rhwng awdurdodau lleol, SABau a BILlau, a chydweithio rhwng CADYau o fewn ac ar draws clystyrau ysgol.

Barnwyd bod ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn gweithio'n dda hefyd ac yn cael dylanwad cadarnhaol ar berthnasoedd rhwng ysgolion, dysgwyr a rhieni, gan greu system sy'n fwy cynhwysol.

Adroddodd cyfranogwyr bod systemau yr oeddent wedi cael eu gweithredu er mwyn cynorthwyo gweithrediad y diwygiadau ADY (e.e. systemau CDU ar-lein, templedi a/neu ffurflenni safonol, dysgu proffesiynol ar gyfer staff, cyfarfodydd rhwydwaith neu banel rheolaidd) yn cyfrannu at ymwybyddiaeth a dealltwriaeth well o'r system ADY.

Adroddodd bron pob cyfranogydd bod pwysau ar staff a chapasiti sefydliadol i weithredu'r system ADY, yn bennaf oherwydd heriau sy'n ymwneud â chyllid a mwy o lwyth gwaith ar ymarferwyr o ganlyniad i weithredu'r system ADY.

Adroddwyd bod cwblhau gwaith erbyn terfynau amser statudol yn her mewn rhai achosion, yn enwedig wrth sicrhau mewnbwn yr holl ymarferwyr a'r gweithwyr proffesiynol perthnasol o fewn y terfynau amser.

Cynlluniau Datblygu Unigol (CDUau) a phrosesau cynllunio

Ym mhob ardal awdurdod lleol yn yr astudiaeth hon, ystyriwyd y dull ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn fel rhywbeth cadarnhaol gan gynrychiolwyr o bob sector yn gyffredinol. Roedd cyfranogwyr o bob sector yn croesawu cyswllt dysgwyr â thrafodaethau ynghylch eu hanghenion a'r cyfle i'w cynnwys mewn ffordd ystyrion wrth ddatblygu CDUau.

Amlygodd cynrychiolwyr o bob sector y ffaith bod CDUau a phrosesau cynllunio wedi arwain at lwyth gwaith ychwanegol sylweddol i staff, gan gynnwys CADYau, ond heb ei gyfyngu i'r rhain yn unig.

Nododd pob sector bod ymgysylltu gweithwyr ieuchyd proffesiynol â phrosesau cynllunio CDU a chyfarfodydd ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn her benodol, yn aml oherwydd cyfyngiadau amser a'u hargaeledd cyfyngedig.

Roedd ysgolion a chyfranogwyr o SABau yn ystyried bod CDUau yn holistig ac roeddent yn teimlo eu bod yn cyflawni rôl bwysig wrth sicrhau bod anghenion dysgwyr, canlyniadau bwriadedig a dyheadau yn cael eu cofnodi mewn ffordd ystyrlon.

Nodwyd pryderon ynghylch ansawdd rhai CDUau gan gynrychiolwyr awdurdodau lleol ac ysgolion. Roedd y pryderon hyn yn ymwneud yn bennaf ag anghysondebau wrth adnabod ADY, DDdY a chanlyniadau dysgwyr a amlygwyd. Yn ogystal, adroddodd rhai cynrychiolwyr awdurdodau lleol ac ysgolion am y ffaith na chaiff digon o wybodaeth ei chynnwys mewn rhai CDUau am ffactorau cyd-destunol ehangach sy'n berthnasol i ddysgwyr sydd ag anghenion mwy cymhleth.

Roedd cyfranogwyr yn teimlo bod yr amser cyflwyno hir ar gyfer adolygiadau yn cynnig budd cadarnhaol i brosesau cynllunio.

Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY)

Nododd cyfranogwyr o bob sector ym mhob ardal amrywiad ac anghysondeb o ran dealltwriaeth a dehongliadau o DDdY, gan gynnwys DDdY a gaiff ei sicrhau gan gorff GIG. Amlygont y ffaith y gallai'r amrywiant hwn effeithio ar ddulliau gweithredu er mwyn sicrhau darpariaeth briodol, a gosod targedau o fewn CDUau.

Adroddodd cyfranogwyr o bob sector eu bod yn cydweithio o fewn eu clystyrau a'u rhanbarthau er mwyn cytuno ar ddulliau gweithredu cyson tuag at ddiffiniadau a darpariaeth DDdY pan fo modd, gyda chynrychiolwyr ysgolion a SABau yn teimlo y byddai canllawiau er mwyn eguro diffiniad o DDdY o gymorth hefyd.

Roedd cyfranogwyr o'r holl ardaloedd awdurdodau lleol yn teimlo bod DDdY digonol yn bodoli i ddiwallu anghenion rhan fwyaf y dysgwyr, er bod rhai cynrychiolwyr ysgolion wedi nodi bod cyfyngiadau o ran adnoddau, megis pwysau ariannol ac o ran amser, yn amharu ar eu gallu i gyflwyno DDdY mewn ffordd effeithiol. Nododd cynrychiolwyr BILlau heriau wrth gyflwyno DDdY trwy CAMHS a therapïau hefyd, o ganlyniad i faterion capasiti.

Adroddodd cynrychiolwyr awdurdodau lleol ac ysgolion am heriau arwyddocaol wrth fanteisio ar ddarpariaeth arbenigol i ddysgwyr y mae gofyn iddynt gael DDdY a chymorth mwy cymhleth oherwydd diffyg argaeledd.

Yn gyffredinol, roedd cynrychiolwyr awdurdodau lleol, ysgolion a BILlau yn teimlo bod gwybodaeth a sgiliau digonol yn bodoli i gyflwyno DDdY, gyda rhai awdurdodau lleol yn neilltuo timau i oruchwyllo DDdY a buddsoddi mewn dysgu proffesiynol ar gyfer eu staff.

Nododd cynrychiolwyr ysgolion a SABau rwystrau wrth gyflwyno DDdY, megis llwyth gwaith uwch, diffyg capasiti staff, ac amgylcheddau ffisegol annigonol. Nodwyd heriau hefyd ym mhob sector ynghylch sicrhau arbenigwyr cyfrwng Cymraeg i gyflwyno DDdY, gan arwain at fwy o annhegwch ymhlith dysgwyr o bosibl.

Nododd cynrychiolwyr lleoliadau blynyddoedd cynnar mai eu prif her wrth gyflwyno DDdY yw capasiti staff oherwydd gofynion o ran cymarebau staff-i-ddysgwyr.

Rolau statudol

Yn gyffredinol, roedd gan gyfranogwyr farn gadarnhaol am rolau statudol CADY, SAADY y Blynyddoedd Cynnar a SACDA. Yn gyffredinol, roedd dealltwriaeth dda o rolau a chyfrifoldebau pob rôl statudol, ac roedd cyfranogwyr yn gwerthfawrogi y gallai'r rolau hwyluso cydweithio o fewn a rhwng sectorau a lleoliadau.

Mynegwyd pryder gan gyfranogwyr ar draws pob sector ynghylch llwyth gwaith unigolion yn y rolau statudol. Ar gyfer CADYau a SAADYau BC, nododd cyfranogwyr bod y llwyth gwaith yn weinyddol iawn, a bod hyn yn cael effaith negyddol ar eu gallu i gwblhau tasgau angenrheidiol eraill. Mewn rhai ysgolion/lleoliadau, adroddwyd bod y llwyth gwaith trwm wedi arwain at drosiant uchel o ran staff, a chael effeithiau negyddol ar les. Ar gyfer SACDAau, nododd cyfranogwyr bod cylch gwaith y rôl yn rhy fawr i un person.

Roedd rhai lleoliadau wedi cyflwyno rolau cymorth CADY neu SAADY y Blynyddoedd Cynnar ychwanegol, neu greu rolau a rennir, er mwyn lleddfu baich llwyth gwaith trwm ar un unigolyn.

Cydweithio a rhannu gwybodaeth

Yn gyffredinol, adroddodd cynrychiolwyr a gyfwelwyd ar draws y gwahanol sectorau bod cydweithio rhwng ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol ar draws gwahanol sectorau yn gweithio yn dda.

Roedd ffactorau yr adroddwyd eu bod yn galluogi perthnasoedd gwaith da rhwng sectorau yn cynnwys lefelau cymorth a ddarparir gan awdurdodau lleol i ysgolion a SABau; cyflwyno rôl y SACDA; paneli a fforymau blynyddoedd cynnar a oedd wedi cynorthwyo wrth adnabod ADY yn gynnar; cyfleoedd i ysgolion rwydweithio gydag ysgolion eraill; grwpiau llywio ôl-16; a systemau rhannu data ar-lein effeithiol.

Roedd ffactorau yr adroddwyd eu bod yn gweithredu fel rhwystrau sy'n atal cydweithio effeithiol rhwng sectorau yn cynnwys diffyg capasiti, yn enwedig ymhlith ymarferwyr BILlau, i gyfrannu at CDUau neu fynychu cyfarfodydd ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn; gwahanol ddehongliadau o'r diffiniad o DDdY rhwng sectorau; diffyg dulliau gweithredu cyson, ar draws awdurdodau lleol yn arbennig; a diffyg dealltwriaeth ymhlith ymarferwyr ysgolion ynghylch y dyletswyddau sy'n ymwneud ag atgyfeiriadau adran 20.

Ystyriwyd bod systemau ar-lein yn bwysig er mwyn galluogi gweithgarwch rhannu data effeithlon ac effeithiol, rhwng ac o fewn sectorau. Adroddodd cynrychiolwyr ar draws y gwahanol sectorau bod systemau ar-lein wedi helpu i egluro rolau, gwella ansawdd CDUau a chynorthwyo llif gwybodaeth rhwng ac o fewn sectorau.

Anghytundebau ac apeliadau

Adroddodd cyfranogwyr ar draws awdurdodau lleol, ysgolion, sefydliadau addysg bellach a byrddau iechyd brofiadau cymysg mewn perthynas ag anghytundebau ac apeliadau. Nododd rhai cyfranogwyr welliannau trwy gyfrwng cydweithio cynharach gyda theuluoedd, a disgrifiodd eraill gynnydd mewn anghydfodau ffurfiol, apeliadau, a heriau cyfreithiol. Adroddwyd bod yr achosion hyn yn cymryd amser ac yn rhoi pwysau ar staff ac adnoddau, yn enwedig mewn ardaloedd lle'r oedd rhieni yn ceisio cynrychiolaeth gyfreithiol yn gynyddol.

Roedd profiadau ysgolion a lleoliadau yn amrywio, gyda rhai yn datrys anghytundebau mewn ffordd anffurfiol, ac eraill yn wynebu beichiau emosiynol a gweinyddol sylweddol oherwydd apeliadau.

Adroddodd cynrychiolwyr byrddau iechyd am gael mwy o gyswllt gydag achosion tribiwnlys hefyd, gan ymateb i adroddiadau gofal iechyd preifat yn aml. Fodd bynnag, roedd nifer yn teimlo ei bod hi'n rhy gynnar o hyd i nodi tueddiadau clir o ran anghytundebau.

Nododd cyfranogwyr sawl achos sylfaenol anghytundeb o fewn y system ADY, gan gynnwys gwahanol ddehongliadau o DDdY, disgwyliadau sy'n codi ymhlith rhieni, a mwy o ddefnydd o gynrychiolaeth gyfreithiol. Roedd hi'n gyffredin gweld anghydfodau yn canolbwyntio ar benderfyniadau ynghylch math neu lefel y DDdY, lleoliad mewn darpariaeth arbenigol, a chynnwys CDUau.

Mynegwyd pryder gan rai cynrychiolwyr ysgolion y gallai ofn achosion tribiwnlys arwain at gytuno ar CDUau yn ddianghenraid. Roedd camddealltwriaeth ynghylch yr hyn a nodir gan CDUau, megis tybiaethau rhieni ynghylch cyllid neu gymorth un-i-un yn cyfrannu at densiynau hefyd.

Mynegwyd pryderon gan staff byrddau iechyd ynghylch yr amser y mae prosesau cyfreithiol yn ei gymryd, a'r diffyg eglurder ynghylch eu rôl mewn apeliadau. Er gwaethaf yr heriau hyn, gwelwyd enghreifftiau o ddulliau mwy cydweithredol, yn enwedig lle'r oedd cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn cefnogi deialog gynnar ac yn helpu i reoli disgwyliadau.

System ddwyieithog

Adroddodd rhan fwyaf yr ysgolion a'r lleoliadau cyfrwng Cymraeg sy'n gwasanaethu ardaloedd lle y ceir niferoedd mawr o deuluoedd sy'n siarad Cymraeg, bod ganddynt gapasiti digonol er mwyn gallu cyflwyno DDdY yn Gymraeg a diwallu anghenion eu dysgwyr. Adroddwyd am rai heriau, ac yn benodol, llai o adnoddau i gynorthwyo ymyriadau darllen a llythrennedd ac adnoddau i ddysgwyr sydd â dyslecsia.

Disgrifiodd awdurdodau lleol a BILlau eu hymdrechion i sicrhau bod ganddynt gapasiti dwyieithog digonol i ddiwallu anghenion dysgwyr, ond nodwyd ychydig brinder ganddynt. Adroddwyd am ddiffyg capasiti siarad Cymraeg mewn rhai sectorau, sef therapyddion iaith a lleferydd a seicolegwyr addysg yn benodol.

Nododd ysgolion cyfrwng Cymraeg a SABau nad oeddent wedi cael ceisiadau am DDdY trwy gyfrwng y Gymraeg. Adroddodd rhai cynrychiolwyr AB bod ganddynt staff academaidd neu staff cymorth sy'n meddu ar y sgiliau Cymraeg er mwyn gallu cynnig cymorth i ddysgwyr sydd ag ADY, a nododd eraill heriau yr oeddent wedi dod ar eu traws wrth geisio recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg, yn enwedig staff cymorth.

Ffactorau system ehangach

Adroddodd y sawl a gyfwelwyd bod costau ychwanegol ynghlwm â gweithredu'r system ADY, yn benodol ar gyfer penodi staff i weinyddu prosesau sy'n ymwneud â CDUau, rolau staff newydd, systemau CDU ar-lein a dysgu proffesiynol. Adroddodd ysgolion, lleoliadau blynyddoedd cynnar a chynrychiolwyr SAB am gostau ychwanegol sy'n ymwneud â rhyddhau eu CADY i gyflawni gweithgareddau sy'n ymwneud â gweinyddu CDUau.

Roedd safbwyntiau cymysg ymhlith awdurdodau leol ac ysgolion ynghylch tryloywder prosesau ariannu. Roedd rhai yn teimlo bod mecanweithiau ariannu yn aneglur ac roedd eraill yn teimlo eu bod wedi dod yn fwy tryloyw.

Adroddodd cyfranogwyr ar draws pob sector eu bod wedi manteisio ar gyfleoedd datblygu proffesiynol yn ymwneud â'r system ADY. Nododd cyfranogwyr feysydd i roi blaenoriaeth iddynt yn y dyfodol o ran dysgu proffesiynol, a oedd yn cynnwys hyfforddiant ynghylch diffiniadau o ADY a DDdY, ysgrifennu CDUau a hyfforddiant ynghylch mathau penodol o ADY.

Adroddodd cyfranogwyr nad oedd rhai dysgwyr oedd ag AAA dan y system flaenorol (gweithredu gan yr ysgol a gweithredu gan yr ysgol a mwy yn arbennig) wedi cael eu diffinio fel rhai sydd ag ADY dan y system newydd oherwydd bod ysgolion yn eu cynorthwyo trwy ddarpariaeth y byddai modd ei darparu fel arfer nawr (y cyfeiriwyd ati yn aml fel darpariaeth 'gyffredinol').

Adroddodd cynrychiolwyr awdurdodau lleol, ysgolion a'r blynyddoedd cynnar bod y diwygiadau ADY ac i'r cwricwlwm yn cyd-fynd o ran eu hethos a'u nodau, yn enwedig y ffocws ar ddysgu unigoleddig a dulliau sy'n canolbwyntio ar y dysgwr. Fodd bynnag, roedd cyfranogwyr yn teimlo ei bod hi'n anodd cyflawni nodau'r ddau ddiwygiad yn ymarferol, oherwydd diffyg capasiti staff.

Safbwyntiau dysgwyr

Yn gyffredinol, roedd gan ddysgwyr safbwyntiau cadarnhaol am eu profiadau yn yr ysgol neu'r coleg, gyda'r rhan fwyaf yn adrodd eu bod yn mwynhau'r ysgol neu'r coleg ac yn teimlo eu bod yn dysgu pethau newydd ac yn sicrhau cynnydd gyda'u dysgu. Roedd gan ddysgwyr uwchradd safbwyntiau mwy cymysg na'r rhai mewn lleoliadau cynradd ac AB, ond roeddent wedi cynnig enghreifftiau o hyd o bethau y maent yn eu mwynhau yn yr ysgol. Yn gyffredinol, roedd dysgwyr yn gwerthfawrogi'r help yr oeddent yn ei gael gan athrawon/staff ac roeddent yn mwynhau gwersi sydd â ffocws mwy ymarferol (e.e. coginio, gwaith coed, canu, drama a chelf).

Disgrifiodd dysgwyr sut y maent yn cael ystod eang o fathau o gymorth gyda'u dysgu, gan gynnwys cymorth un-i-un gan CA, mynediad i fannau tawel, mynediad i staff neu i fannau i drafod unrhyw bryderon, dysgu mewn dosbarthiadau llai, sesiynau dysgu rheolaidd wedi'u teilwra neu eu targedu, dysgu yn yr awyr agored, teithiau ysgol ac adnoddau digidol. Yn gyffredinol, roedd dysgwyr yn teimlo eu bod yn cael y cymorth y mae ei angen arnynt yn yr ysgol neu'r coleg.

Gallai nifer fach o ddysgwyr uwchradd a choleg gofio cyfarfod ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn cael ei gynnal. Yn gyffredinol, roedd y dysgwyr hynny yn teimlo bod rhywun wedi gwrando arnynt, gyda rhai yn cofio eu bod wedi cael mwy o help ar ôl y cyfarfod. Roedd nifer llai o ddysgwyr wedi cael profiadau llai cadarnhaol, megis athro heb fod yn mynychu'r cyfarfod fel y disgwyl, neu ddim newidiadau yn cael eu gwneud ar ôl y cyfarfod. Yn gyffredinol, adroddodd dysgwyr eu bod yn teimlo eu bod yn cael cymorth da a'u bod yn gallu troi at staff pe baent yn dymuno trafod unrhyw bryderon.

Safbwyntiau rhieni

Adroddodd rhieni am amrywiad sylweddol yn eu profiadau o'r system ADY, gan amrywio o rai cadarnhaol iawn i rai heriol iawn. Er bod rhai rhieni wedi disgrifio perthnasoedd cryf gydag ysgolion a CADYau, yn enwedig mewn lleoliadau arbenigol lle'r oedd y cyfathrebu yn digwydd yn aml a'r gwaith cynllunio yn gyson, adroddodd eraill am oedi wrth sicrhau CDUau, ansicrwydd am brosesau a chynlluniau nad oeddent yn cofnodi anghenion eu plentyn yn llawn.

Yn yr un modd, roedd safbwyntiau am ansawdd CDUau a DDdY yn gymysg. Roedd nifer o rieni yn teimlo bod CDUau yn amwys, heb fod yn ddigon manwl, neu wedi cael eu siapio gan gyfyngiadau staffio ac adnoddau ysgolion yn hytrach nag anghenion y plentyn. Yn ogystal, mynegwyd pryderon gan rieni mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg am fynediad cyfyngedig i arbenigwyr sy'n siarad Cymraeg, gyda rhai yn adrodd bod y cymorth yn troi i'r Saesneg yn ddiogel.

Roedd rhieni yn aml yn amlygu heriau o ran cyfathrebu a chydlyn, gydag ysgolion ac ar draws addysg, iechyd a gofal cymdeithasol. Disgrifiodd sawl un eu bod yn gorfod "pontio'r bylchau" rhwng gwasanaethau, gan brofi oedi wrth rannu gwybodaeth, neu orfod gofyn am wybodaeth dro ar ôl tro. Nododd rhieni anawsterau hefyd wrth ddefnyddio'r system ADY, a ystyriwyd yn gymhleth, ac nid oedd y ffaith bod dealltwriaeth staff ysgolion ohoni yn amrywiol yn helpu, ac adroddont am yr angen i ddarganfod gwybodaeth eu hunain. Dywedodd sawl un eu bod wedi dibynnu ar sefydliadau eiriolaeth i gael arweiniad a'u bod yn ddiolchgar am y cymorth a gawsant.

Atodiad A: Proffil y sampl

Mae'r adran hon yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol am broffil y sampl (Gweler Pennod 3).

Dull samplu ar gyfer astudiaethau ardal wedi'u lleoli mewn chwe awdurdod lleol

Dewiswyd chwe awdurdod lleol yn seiliedig ar y meini prawf canlynol.

Maen prawf 1: Daearyddiaeth: un awdurdod lleol o chwe rhanbarth daearyddol yng Nghymru.

- Gogledd-orllewin: Ynys Môn, Gwynedd, Conwy
- Gogledd-ddwyrain: Sir Ddinbych, Wrecsam, Y Fflint
- Canolbarth a gorllewin: Ceredigion, Powys, Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin
- Cymoedd y De: Torfaen, Caerffili, Blaenau Gwent, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful
- Dinas De: Abertawe, Caerdydd, Casnewydd
- De, heb fod yn ddinas: Castell-nedd Port Talbot, Pen-y-bont ar Ogwr, Sir Fynwy, Bro Morgannwg

Maen prawf 2: Awdurdodau lleol sy'n cwmpasu o leiaf pedwar o'r saith Bwrdd Iechyd Lleol

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (sy'n gyfrifol am wasanaethau'r GIG sy'n cwmpasu Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen)
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (sy'n gyfrifol am wasanaethau'r GIG sy'n cwmpasu Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam)
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (sy'n gyfrifol am wasanaethau'r GIG sy'n cwmpasu Caerdydd a Bro Morgannwg).
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (sy'n gyfrifol am wasanaethau'r GIG sy'n cwmpasu Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf)
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (sy'n gyfrifol am wasanaethau'r GIG yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro)
- Bwrdd Iechyd Addysgu Powys (sy'n gyfrifol am wasanaethau'r GIG ym Mhowys)

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (sy'n gyfrifol am wasanaethau'r GIG yn Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot, yn ogystal â rhai gwasanaethau rhanbarthol arbenigol)

Mae rhanbarthau'r gogledd-ddwyrain a'r gogledd-orllewin yn cael eu cwmpasu gan BILI Betsi Cadwaladr.

Maen prawf 3: Canran yr holl ddysgwyr sydd ag ADY neu AAA

- Cynnwys o leiaf ddau awdurdod lleol sydd â chanran uwch o ddysgwyr ag ADY (15.0% neu fwy) na'r ganran gyffredinol yng Nghymru (13.2 y cant)
- Cynnwys o leiaf un awdurdod lleol sydd â chanran debyg o ddysgwyr ag ADY (11.5%-14.9%) i'r ganran gyffredinol yng Nghymru (13.2 y cant)
- Cynnwys o leiaf ddau awdurdod lleol sydd â chanran is o ddysgwyr ag ADY (o dan 11.5%) na'r ganran gyffredinol ar gyfer Cymru (13.2 y cant)

Maen prawf 4: Canran y dysgwyr ag ADY sydd â CDUau (mae'r categorïau isod yn eang oherwydd yr amrywiaeth rhwng awdurdodau lleol, yn amrywio o 5% i 44%).

- Cynnwys dau awdurdod lleol sydd â chanran uwch o ddysgwyr ADY sydd â CDUau (dros 26% o'r rhai ag ADY) na'r ganran gyffredinol yng Nghymru (18.9 y cant)
- Cynnwys dau awdurdod lleol sydd â chanran debyg o ddysgwyr ADY sydd â CDUau (12.0-25.9% o'r rhai sydd ag ADY) i'r ganran gyffredinol yng Nghymru (18.9 y cant)
- Cynnwys dau awdurdod lleol sydd â chanran is o ddysgwyr ADY sydd â CDUau (o dan 11.9% o'r rhai sydd ag ADY) i'r ganran gyffredinol yng Nghymru (18.9 y cant)

Yn seiliedig ar ddata o Gyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion ar gyfer 2022/23: data cryno yn ôl awdurdod lleol (disgyblion 5 i 15 oed mewn ysgolion cynradd, canol neu uwchradd)

Maen prawf 5: Maint (yn seiliedig ar nifer y dysgwyr)

- Cynnwys o leiaf un awdurdod lleol sydd â nifer uwch o ddysgwyr (dros 12,000) na chyfartaledd Cymru (9,109)
- Cynnwys o leiaf un awdurdod lleol gyda nifer o ddysgwyr (7,000-11,999) yn agos at gyfartaledd Cymru (9,109)

- Cynnwys o leiaf un awdurdod lleol sydd â nifer is o ddysgwyr (0-6999) na chyfartaledd Cymru (9,109)

Maen prawf 6: Canran y siaradwyr Cymraeg

- Cynnwys o leiaf un awdurdod lleol sydd â chanran uwch o siaradwyr Cymraeg (dros 27%) na'r ganran gyffredinol yng Nghymru (17.8 y cant)
- Cynnwys o leiaf un awdurdod lleol sydd â chanran is o siaradwyr Cymraeg (o dan 14%) na'r ganran gyffredinol ar gyfer Cymru (17.8 y cant)

Yn seiliedig ar ddata Cyfrifiad 2021

Dewis awdurdodau lleol

O fewn pob un o'r chwe rhanbarth daearyddol (maen prawf 1 uchod), cafodd awdurdodau lleol eu rhestru ar hap, a dewiswyd yr awdurdod lleol cyntaf o bob rhanbarth. Yna adolygwyd y rhestr hon o chwe awdurdod lleol (un fesul rhanbarth) i wirio a oedd pob un o'r meini prawf uchod wedi'u bodloni ar draws y sampl gyfan. Os nad oedd awdurdod lleol o fewn rhanbarth penodol yn bodloni un neu fwy o'r meini prawf, yna cafodd yr awdurdod lleol hwn ei eithrio o'r detholiad a dewiswyd yr awdurdod lleol nesaf o'r rhanbarth hwn nes y gellid bodloni'r holl feini prawf ar draws y chwe ardal a ddewiswyd.

Dewis ysgolion

Nod yr ymchwil oedd ymgysylltu â chynrychiolwyr ysgolion mewn pedwar lleoliad ym mhob awdurdod lleol: un ysgol gynradd, un ysgol uwchradd neu ysgol gyfan, un sefydliad addysg bellach a wasanaethodd yr awdurdod lleol ac un ysgol arbennig neu UCD. Dewiswyd ysgolion a lleoliadau yn seiliedig ar y meini prawf samplu isod gyda'r nod o ymgysylltu â 24 lleoliad gan gynnwys:

- 12 ysgol
 - 6 cynradd
 - 2 cyfrwng Cymraeg/ffrwd deuol
 - 4 cyfrwng Saesneg
 - 6 uwchradd / pob oed

- 2 cyfrwng Cymraeg/dwyieithog
- 4 cyfrwng Saesneg
- 6 sefydliad addysg bellach
- 3 ysgol arbennig
- 3 UCD

Cynhwyswyd o leiaf tair ysgol mewn ardaloedd gwledig a thair gyda dosbarthiadau arbennig a ddynodwyd gan awdurdod lleol (yn ôl data PLASC) hefyd yn y sampl.

Yn ogystal â'r meini prawf uchod, dewiswyd ysgolion i sicrhau lledaeniad priodol yn ôl canran y dysgwyr ag ADY/AAA (dangosydd o lefelau cyffredinol ADY yn yr ysgol), CDUau (fel dangosydd o'r graddau yr oedd eu dysgwyr wedi trosglwyddo i'r system ADY) ac eFSM (fel dangosydd o amddifadedd economaidd-gymdeithasol).

Roedd data cyhoeddedig o PLASC 2023 ar ganran y dysgwyr ag ADY / AAA ar gael ar gyfer 377 o'r 405 ysgol yn y chwe awdurdod lleol a ddewiswyd ar gyfer yr astudiaethau ardal. Ar draws y chwe awdurdod lleol, dangosodd y data:

- Mewn 30% o'r ysgolion hyn, roedd gan lai na 4% o ddysgwyr ADY / AAA (a ddiffinnir fel isel ar gyfer yr ymchwil hon)
- Mewn 38% o'r ysgolion hyn, roedd gan rhwng 4% a 14% o ddysgwyr ADY/AAA (a ddiffinnir fel canolig ar gyfer yr ymchwil hon)
